Nodiadau ar

# *Un Nos Ola Leuad,*

Caradog Prichard


Nodiadau i fyfyrwyr
Cymraeg Safon Uwch gan

Bleddyn Owen Huws



caa
PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

ⓗ Prifysgol Aberystwyth, 2012 ©

Mae hawlfraint ar y deunyddiau hyn ac ni ellir eu hatgynhyrchu na'u cyhoeddi heb ganiatâd ysgrifenedig perchennog yr hawlfraint.

Paratowyd gan CAA, Prifysgol Aberystwyth, Plas Gogerddan, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3EB (www.aber.ac.uk/caa)

Dyluniwyd gan Richard Huw Pritchard.

Noddwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Cydnabyddiaethau**

Diolch i Ystâd Caradog Prichard am ganiatâd i atgynhyrchu dyfyniadau o *Un Nos Ola Leuad* ac *Afal Drwg Adda*.

# CYNNWYS


1 **Cyflwyniad**

2 **Caradog Prichard**
- 2.1 Llenor hunangofiannol
- 2.2 Ffaith a ffuglen

3 **Naratif y nofel**
- 3.1 Llais yr Adroddwr a llais y Bachgen

4 **Cymeriadau**
- 4.1 Oriel o gymeriadau brith

5 **Strwythur a chynllun y nofel**

6 **Adeiladwaith y nofel**

7 **Rhyw lun o gronoleg**
- 7.1 Dyddiadau ac oedran
- 7.2 Cyfnodau trothwyol

8 **Darlun o gymdeithas**
- 8.1 Tlodi
- 8.2 Caredigrwydd cymdogol
- 8.3 Digwyddiadau treisgar
- 8.4 Rhyw bethau rhyfedd

9 **Portread o wallgofrwydd**
- 9.1 Nofel seicolegol
- 9.2 Cymhlethdod Oidipos

10 **Amwysedd**

11 **Elfennau mytholegol**
- 11.1 Bachgen di-dad
- 11.2 Grym y lleuad
- 11.3 Pen Llyn Du

12 **Gair i gloi**

13 **Cwestiynau i'w trafod yn y dosbarth**

14 **Crynodeb o brif ddigwyddiadau pob pennod**

15 **Llyfryddiaeth**

## 1. Cyflwyniad

Bwriedir y nodiadau hyn fel cymorth i astudio ac adolygu. Darparant ganllaw sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr fynd dan groen y nofel a dod i adnabod y gwahanol haenau sydd ynddi. Wrth ddyfynnu, cyfeirir at rifau'r tudalennau yn yr argraffiad cyntaf a gyhoeddwyd gan Wasg Gee yn 1961.

Os oes unrhyw nofel Gymraeg erioed sydd wedi llwyddo i gyfareddu darllenwyr ac ennyn ymateb cyson-ysgubol, *Un Nos Ola Leuad* yw honno. Byth oddi ar ei chyhoeddi dros hanner can mlynedd yn ôl mae wedi hawlio'i lle fel nofel fodernaidd a gydiodd yn nychymyg cenedlaethau o ddarllenwyr Cymraeg. Ac nid darllenwyr Cymraeg yn unig, oherwydd fe'i cyfieithwyd i nifer o ieithoedd eraill yn cynnwys y Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Iseldireg, Sbaeneg a'r Hebraeg, sy'n cadarnhau ei hapêl gyffredinol fel darn o lenyddiaeth greadigol sy'n gallu swyno dyn.

Bu'n un o nofelau'r maes llafur Cymraeg Safon Uwch am dros ddeng mlynedd ar hugain, ac erbyn hyn fe enillodd iddi'i hun statws clasur modern. Nac anghofiwn ychwaith iddi gael ei throsi'n ffilm, ac i addasiadau llwyddiannus ohoni ymddangos ar lwyfan.

'Dyma'r un nofel sydd ym mhawb,' meddai John Gwilym Jones, y beirniad llên, amdani un tro, am fod gan bawb ohonom ei stori. Rhan o stori bywyd Caradog Prichard sy'n gefndir iddi, ond bod y stori honno wedi ei gwau ar ffurf naratif dychmygol nad yw bob amser yn adlewyrchu gwirionedd llythrennol a ffeithiol.

Ar siaced lwch yr argraffiad cyntaf ceid y broliant hwn:

> Dyma nofel gyntaf yr awdur. Sgrifennwyd hi bron yn gyfan yn iaith lafar ardaloedd chwareli Arfon. Pererindod olaf gŵr wedi ei reibio gan gysgodion plentyndod a bachgendod a geir ynddi, gyda fflach o olau a gwres yr heulwen yn dod ar ysbeidiau i lareiddio a sirioli'r olygfa dywyll. Y mae symledd idiom a diniweidrwydd gair ar brydiau'n cuddio arswyd ac angerdd. Ond cyfleir hefyd yr anwyldeb hwnnw a berthyn yn nes i iaith y cartref a'r maes chwarae nag i iaith ysgol a 'llenyddiaeth'. Efallai mai'r cyfarwyddyd gorau i ddarllenydd y stori anghyffredin hon fyddai hwnnw a geir weithiau gan gynhyrchwyr teledu, sef: 'Anfonwch eich plant i'w gwelyau cyn ei dechrau.'

Rhybudd eithaf cellweirus oedd hwnnw rhag y golygfeydd treisgar sydd ynddi, o bosibl, a hefyd am fod yma beth sydd yn ei hanfod yn stori enbyd o drist. Uchafbwynt y tristwch yn ddiau yw fod mam y prif gymeriad yn dioddef o salwch meddwl, a bod ei chyflwr yn dirywio i'r fath raddau yn y diwedd nes bod yn rhaid ei chludo i'r Seilam. Dyna'r chwalfa yn hanes y Bachgen. Fe'i gadewir bron yn amddifad ar ôl hynny, yn enwedig pan gofiwn iddo hefyd golli cwmni dau o'i ffrindiau mwyaf mynwesol, sef Moi, a fu farw o'r diciâu, a Huw, sy'n mudo gyda'i deulu i'r De.

Erbyn diwedd y nofel, fodd bynnag, daw'n amlwg fod un digwyddiad tyngedfennol arall yn hanes y prif gymeriad, sef ei weithred wallgof yn llofruddio Jini Bach Pen Cae. Mae

fel petai'r holl drais a'r holl lifeiriant o bethau rhyfedd ac ofnadwy a welodd yn digwydd o'i gwmpas wedi cronni ynddo. Os yw pawb yn y Pentra fel petaent yn mynd o'u cof, yna'r weithred fwyaf resymol ac anochel yw fod y Bachgen hefyd yn colli gafael ar realiti ac yn ymateb yn dreisgar. Mae rhyw ymdeimlad o anghyfiawnder ac o ddiymadferthedd yn wyneb y chwalfa sy'n ei orfodi i wynebu cymaint o brofedigaethau, ac yntau mewn oedran tyner iawn.

Nid yw'r lleuad byth ymhell o ganol llif naratif y nofel. Mae modd cael cip ysbeidiol arni wrth i'r Adroddwr deithio drwy'r pentref a chyrraedd Pen Llyn Du. Mae'n bresenoldeb parhaus, ac yn gyfochrog â'r cipolygon a gawn arni mae cyfres o hanesion am ddigwyddiadau amrywiol, rhai ohonynt yn ddoniol a difyr, bywiog a chyffrous, ac eraill yn dywyll a thrist.

Gellid dweud mai nofel am blentyndod yw hi yn ei hanfod, a hwnnw'n blentyndod digon tymhestlog. Tymhestlog am fod y Bachgen a'i fam yn byw mewn tlodi ac am fod y Bachgen yn dyst i gyfres o ddigwyddiadau digon brawychus. Nid yw marwolaeth byth ymhell. Mae'r Rhyfel Byd Cyntaf yn bwrw ei gysgod creulon dros gyfnod ei blentyndod, ac mae afiechyd yn hawlio un o'i ddau ffrind pennaf. Mae pobl yr oedd ef yn eu hadnabod, neu'n gwybod amdanynt, naill ai'n marw (gwelodd gyrff y Canon ac Em Brawd Now Bach Glo yn eu heirch), neu'n cael eu lladd (Elwyn Pen Rhes, John Elwyn mab Canon, Bob Bach Sgŵl, a Guto ei gefnder), neu yn eu lladd eu hunain (Yncl Now Moi a Wil Elis Portar). Mae nifer o brofedigaethau yma, ond y brofedigaeth fwyaf un yn hanes y Bachgen, heb os, yw salwch meddwl ei Fam.

## 2. Caradog Prichard 1904-1980

Bardd, llenor a newyddiadurwr a anwyd ym Methesda, Arfon, oedd Caradog Prichard, yn un o dri mab John a Margaret Jane Prichard. Chwarelwr oedd ei dad a gafodd ei ladd mewn damwain yn y gwaith pan oedd yn dri deg a phedair oed, a Charadog ar y pryd yn fabi pum mis oed. Ni chafodd gyfle, felly, i ddod i adnabod ei dad, a bu'n rhaid i'w fam fagu tri o fechgyn ar ei phen ei hun bach.

Derbyniodd ei addysg yn Ysgol Glanogwen, a oedd yn ysgol yr Eglwys, ac wedyn yn Ysgol Sir Bethesda. Wedi iddo adael yr ysgol yn ddwy ar bymtheg oed ymunodd â staff *Yr Herald Cymraeg* yng Nghaernarfon fel is-olygydd y papur. Gadawodd *Yr Herald* yn ddiweddarach i fynd i weithio ar bapur *Y Faner*, cyn cael ei benodi'n ohebydd ar y *Western Mail* yng Nghaerdydd. Yn ystod ei gyfnod yng Nghaerdydd, fe ddilynodd gwrs gradd fel myfyriwr hŷn yn y Brifysgol, a graddio yn 1933.

Yn fuan ar ôl priodi ei wraig, Mattie, yr un flwyddyn, symudodd i weithio ar bapur y *News Chronicle* yn Llundain, ac yno yn Stryd y Fflyd y treuliodd weddill ei yrfa newyddiadurol, lle'r oedd erbyn diwedd ei yrfa yn is-olygydd seneddol i bapur Torïaidd y *Daily Telegraph*. Ganed i Garadog a Mattie un ferch, sef Mari. Ar ôl symud i Lundain fe gafodd ysfa i ddychwelyd i weithio yng Nghymru, ond ddigwyddodd hynny ddim a threuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn alltud. Dychwelai i Ddyffryn Ogwen ar ei wyliau o dro i dro.

Cyflawnodd gamp unigryw drwy ennill Coron yr Eisteddfod Genedlaethol deirgwaith yn olynol, sef yng Nghaergybi yn 1927 am ei bryddest 'Y Briodas', yn Nhreorci yn 1928 am ei bryddest 'Penyd', ac yn Lerpwl yn 1929 am ei bryddest 'Y Gân Ni Chanwyd'. Salwch ei fam ei hun sydd wrth wraidd y ddwy bryddest gyntaf, gyda'u portread o wraig weddw sy'n araf wallgofi, ac mae'r drydedd yn darlunio hen ŵr yn sefyll ar lan llyn yn hel meddyliau, a'i fam wallgof yn bresenoldeb yn y dŵr. Cyfansoddodd bryddest ar gyfer cystadleuaeth eisteddfodol arall hefyd – pryddest anfuddugol y tro hwn – sef 'Terfysgoedd Daear' yn 1939, cerdd y mae hunanladdiad yn thema iddi. Cipiodd Gadair yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli yn 1962 am ei awdl 'Llef Un yn Llefain', sy'n gerdd am brofiadau offeiriad.

Bu farw ei fam yn 1954 ar ôl treulio deng mlynedd ar hugain yn yr ysbyty meddwl yn Ninbych. Trwy gydol y cyfnod y bu yn Ninbych ymwelai Caradog â hi yn rheolaidd. Roedd yr awdur yn bum deg a saith oed pan gyhoeddodd ei nofel.

### 2.1 Llenor hunangofiannol

Gellid dadlau bod pob llenor i raddau yn tynnu ar brofiadau bywyd, boed y rheini yn rhai personol neu'n rhai y clywodd amdanynt ym mywydau pobl eraill. Er bod Caradog Prichard, yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, yn llenor hunangofiannol, annheg fyddai inni ddarllen hon fel nofel hunangofiannol bur. Darlun wedi ei ystumio sydd yma, fel y byddai'r awdur ei hun yn awyddus i'n hatgoffa:

> Er bod brith-atgofion boreol yn sail i ambell ddigwyddiad yma, ystumiwyd cymaint arnynt gan amser a dychymyg fel nad oes unrhyw gysylltiad uniongyrchol ag unrhyw berson yn yr un o'r cymeriadau, ac y mae 'eu dydd yn gelwydd i gyd'.
> (Nodyn yr Awdur ar ddechrau'r nofel.)

Oherwydd iddo gyhoeddi ei hunangofiant, *Afal Drwg Adda [:] Hunangofiant Methiant* (1973), mae gennym fersiwn swyddogol megis o'i fywgraffiad go-iawn, ac mae modd dal hwnnw'n gyfochrog â'r nofel er mwyn gweld pa elfennau yn y ffuglen sy'n debyg i hanes ffeithiol ei fywyd. Ond doeth fyddai inni gofio drachefn am yr hyn a ddywedodd yr awdur ei hun am y nofel:

> Darlun aneglur, wedi ei ystumio gan amser a dychymyg, fel darlun a welir mewn crychni dŵr, oedd y cronicl hwnnw. Darlun afreal, wedi ei weld yn y cyfnos ac yng ngolau'r lloer. Dyna pam y cafodd y nofel ei theitl.
> *(Afal Drwg Adda*, t. 16)

Creadigaeth ddychmygol yw'r nofel wedi'r cyfan, ac nid oes gennym hawl disgwyl iddi lynu'n ffyddlon wrth ffeithiau hanesyddol. Wrth ddweud bod rhywfaint o gyfatebiaeth rhwng y nofel a'r hunangofiant, *Afal Drwg Adda*, mae'n bwysig cofio na ddylem ddarllen y nofel fel petai wedi ei seilio'n gyfan gwbl ar ffaith. Er i'r awdur a'r hanesydd lleol, J. Elwyn Hughes, allu olrhain byd go-iawn *Un Nos Ola Leuad*, a dangos y lleoedd a'r bobl a'r digwyddiadau a oedd yn sail i bethau a geir yn y nofel, rhaid ei darllen ar ei thelerau ei hun ac o fewn ei therfynau ei hun.

## 2.2 Ffaith a ffuglen

Anodd yw osgoi gweld cysylltiad rhwng ffeithiau bywgraffyddol a'r ffuglen ei hun. Bu fyw mam Caradog Prichard am ddeng mlynedd ar hugain yn yr ysbyty meddwl yn Ninbych. Mae'n rhaid fod y profiad hwnnw a ddisgrifir ganddo yn *Afal Drwg Adda* o weld ei meddwl yn dirywio wedi effeithio'n fawr arno, ac wedi dylanwadu ar ei waith fel llenor a bardd. Teimlai bangfeydd cydwybod am i'w fam ddioddef salwch meddwl a chael ei chloi am ddeng mlynedd ar hugain mewn sefydliad i bobl wael ac ansefydlog eu meddwl. Teimlai euogrwydd am iddo ei siomi drwy fethu â gwireddu ei gobeithion hi ynghylch ei yrfa academaidd yn yr ysgol.

Gadewch inni nodi rhai o'r cyfatebiaethau rhwng y nofel a'r hunangofiant:

i) Ym mis Tachwedd 1904 y ganed Caradog ac ym mis Tachwedd hefyd y câi'r Bachgen yn y nofel ei ben-blwydd.

ii) Cofiai Caradog ei Yncl Jack, brawd ei fam, yn galw heibio'n feddw un ganol nos ac yn gweiddi ar ei fam i agor y drws iddo, a hithau'n ei ateb, 'Dos i'r fan fynnoch di. Chei di byth ddwad i'r tŷ yma eto.' (*Afal Drwg Adda*, t. 16)

iii) Y dyfyniad ar garreg fedd tad Caradog, a laddwyd pan gwympodd craig am ei

ben yn y chwarel, yw 'Yng nghanol ein bywyd yr ydym mewn angau', sef yr union ddyfyniad a geir ar garreg fedd Gryffudd Ifas Braich. (*Afal Drwg Adda*, t. 12)

iv) Roedd ei fam yn byw ar y plwyf. Pum swllt yr wythnos a gâi o arian at gynnal ei theulu. Yng ngeiriau'r awdur, roedd y teulu yn 'dlawd ymhlith tlodion' (*Afal Drwg Adda*, t. 16). Arferai ei fam olchi dillad i'r Canon R. T. Jones, ficer Eglwys Glanogwen, a'i deulu.

v) Nain Pen Bryn, sef mam ei dad, a ddaeth i edrych ar ei ôl ef a'i frodyr am dri mis pan aeth eu mam yn sâl. Bu hi fyw hyd nes ei bod yn gant oed (gw. *Afal Drwg Adda*, t. 21).

vi) Trowyd mam Caradog allan o'i chartref am iddi fethu â thalu'r rhent. Fe'i clodd ei hun yn y cwt glo tra bu'r beilïaid yn cario'i dodrefn o'r tŷ. Helpodd cymdogion hi i gario'r dodrefn i dŷ gwag yn yr un rhes (gw. *Afal Drwg Adda*, t. 55). Yn y nofel, i Catrin Jên Lôn Isa y digwyddodd hynny (t. 8).

vii) Roedd ei fam wedi dechrau siarad ac ymddwyn yn ddieithr iawn. Taerai ei bod yn clywed llais, sef llais ei mab Hywel a symudodd oddi cartref i fyw: 'Yr oedd tro yn ei llygaid nad oeddwn wedi sylwi arno o'r blaen. A chaffai byliau o siarad â chysgodion o'i chwmpas, heb gymryd yr un sylw ohonof fi.' (*Afal Drwg Adda*, t. 34)

viii) Pan oedd yn ohebydd ifanc deunaw oed ac yn byw yn Llanrwst, cafodd alwad i fynd i Fethesda i hebrwng ei fam i'r ysbyty meddwl yn Ninbych, gan ei bod erbyn hynny wedi torri i lawr 'dan faich ei gorthrymderau'. Roedd Caradog yn ei gofio ei hun yn cyrraedd yn ôl i'w lety yn Llanrwst ar ôl bod yn Ninbych '... a rhoi fy mhen ar y bwrdd a chrïo, tuchan crïo'n ddistaw, a heb eto ddod ataf fy hun ar ôl profiad alaethus y dydd.' (*Afal Drwg Adda*, tt. 67-8)

Mae cyfatebiaethau rhyngddynt, oes, ond nid yw'r hunangofiant swyddogol a ffeithiol yn cynnwys sylwebaeth fanwl ar y nofel na dadansoddiad ohoni. Nid dal drych i'w fywyd ei hun a wnaeth yr awdur yn y nofel a darlunio'r adlewyrchiad yn ffyddlon. Yn hytrach, yr hyn a wnaeth oedd defnyddio profiad personol fel sail, ac yna'i fowldio i greu creadigaeth ddychmygol greadigol. Er mor ddeniadol y gall cymharu'r ddau lyfr fod drwy eu darllen ochr yn ochr, rhaid inni ganolbwyntio ar yr hyn sydd rhwng cloriau'r nofel.

## 3. Naratif y nofel

Gair arall am hanes neu stori yw naratif. Yn y nofel hon naratif eithaf anghonfensiynol a geir sy'n cynnwys adroddiad yn y person cyntaf a thameidiau o sgwrs. Mae pethau disgwyliedig fel dyfynodau i ddynodi ble mae siaradwr yn dechrau ac yn gorffen siarad drwy agor a chau sgwrs wedi eu hepgor. Yn groes i'r norm, nid yw'r naratif ychwaith yn dilyn trefn amseryddol resymegol yn fanwl. Rhyw lun o drefn sydd yma o fewn ffrâm ehangach sy'n cynnal y stori. Ond am y manylion, sef cynnwys y gwahanol benodau, mae'n ymddangosiadol ddi-drefn, ar ffurf atgofion driphlith draphlith am ddigwyddiadau lle symudir yn ôl ac ymlaen o ran amser.

Llifeiriant sydd yma lle mae'r adroddwr yn bwrw drwyddi ar ffurf yr hyn sy'n cael ei alw yn 'dechneg llif yr ymwybod'. A chan fod y traethu'n digwydd mewn iaith lafar, mae'n adlewyrchu llifeiriant sgwrs. Arddull stori lafar sydd yma gan fod y traethu'n llawn ymadroddion sgyrsiol fel '...medda fi', 'a dyma fi'n deud...', 'ac wedyn...' a '...ddaru fi'. Dyna nodau sicr a chredadwy plentyn sydd, mewn mannau, yn adrodd ei hanes gydag afiaith a brwdfrydedd.

Disgrifio gwrthrychol a geir wrth adrodd stori fel arfer, lle mae'r awdur yn adrodd yn y trydydd person a lle mae digwyddiadau yn cael eu gweld trwy lygaid ac o safbwynt gwahanol gymeriadau. Yn y fan hon mae'r cyfan yn oddrychol – yn llawer mwy personol ac uniongyrchol – wrth i'r stori gael ei hadrodd yn y person cyntaf ac wrth inni weld digwyddiadau trwy lygaid y sawl sy'n adrodd y stori. Ond gan fod atgofion y dyn mewn oed yn cael eu gosod yng ngenau'r plentyn, mae'n anodd gwahaniaethu rhyngddynt weithiau. Fel yr â'r nofel yn ei blaen, fodd bynnag, mae tuedd i'r naratif fynd yn fwy gwrthrychol ei ddisgrifiad (lle mae'r adroddwr yn disgrifio digwyddiadau heb gynnwys ei deimladau personol), yn enwedig yn y rhannau hynny sy'n disgrifio'r ffeit focsio, y gêm bêl-droed a noson Côr Sowth. Ond eto, ni chollir yr elfen oddrychol, bersonol yn llwyr ychwaith, gan mai myfyrdodau atgofus mewnol yr Adroddwr a gawn.

Gan fod hon yn nofel seicolegol ei phwyslais, sy'n cyfleu cyflwr meddwl y sawl sy'n adrodd yr hanes, ceir rhai adrannau Salmaidd ynddi nad ydynt fel petaent yn perthyn i gorff y nofel. Yn yr adrannau hyn, sef pennod VIII a rhan o bennod XV, gyda'u delweddau awgrymog a'u naws arallfydol, fythaidd, yr ydym yn cael myfyrdodau cymhleth y meddwl. Maent yn cyferbynnu'n llwyr â gweddill arddull y traethu.

### 3.1 Llais yr Adroddwr a llais y Bachgen

Mae modd dadlau bod dau bersona gan adroddwr y stori sy'n adrodd hanes ei blentyndod ar ffurf atgofion:

i) bachgen / plentyn;
ii) gŵr yn ei oed a'i amser / oedolyn.

Y mae digon o gyfiawnhad dros wahaniaethu rhwng llais y Bachgen a llais yr Adroddwr yn y nodiadau hyn, er mai'r un cymeriad ydyw'r ddau yn ei hanfod. Y Bachgen wedi tyfu'n ddyn yw'r Adroddwr, wrth gwrs, ond gan fod y naill o ran y naratif yn perthyn i'r gorffennol a'r llall yn perthyn i'r presennol, mae personoliaeth y ddau mor wahanol fel y gellir eu trin fel cymeriadau ar wahân. Ceir sawl awgrym fod yr Adroddwr yn hanner gwallgof am mai ef sy'n annerch Brenhines y Llyn Du ac yn honni ei fod yn clywed y Llais.

## 4. Cymeriadau

**Yr Adroddwr**
Hwn yw'r dyn mewn oed sy'n edrych yn ôl ac yn adrodd hanes ei blentyndod. Gwyddom fod bwlch o ryw ddeng mlynedd ar hugain o leiaf rhwng y presennol, pan adroddir yr hanes, a'r cyfnod yr adroddir amdano. Ni wyddom beth fu ei hynt yn ystod y cyfnod rhwng yr amser pan gafodd ei ddal wrth geisio dianc o'r Pentra a'r adeg y daeth yn ei ôl ar ddechrau'r daith olaf hon. Mae yna gymylu ffiniau cyfnodau amseryddol rhwng y presennol a'r gorffennol. Ond daw'r ffiniau at ei gilydd pan gyrhaeddir glan y Llyn Du, gan ei fod yn dychmygu mai yn nyfnder y llyn y mae pawb a oedd yn rhan o'i orffennol yn cyd-gwrdd: 'Ella mai i lawr yn fanna ma nhw i gyd o ran hynny, Huw a Moi a Em a Nain a Ceri a pawb.' (t. 182)

Mae'r Adroddwr yn teithio gefn trymedd nos heb gyfarfod â neb ar y ffordd. Am ran o'i daith ar hyd y Lôn Bost mae'n troedio'r un llwybr ag a gymerodd Em Brawd Now Bach Glo ar ei daith wallgof yntau ar y noson ola leuad honno pan oedd rhai o bobl y Pentra ar ei ôl. Gwyddom beth oedd ei dynged ef, sef cael ei ddal a'i gludo i'r Seilam. Nid oes neb na dim yn erlid yr Adroddwr, ar wahân i'w atgofion am ddau brif ddigwyddiad tyngedfennol yn ei hanes, sef hebrwng ei Fam i'r Seilam a thagu Jini Bach Pen Cae.

Diddorol yw fod modd gweld rhywfaint o gyfatebiaeth rhwng yr Adroddwr ac Em, gan mai Em oedd y cyntaf yr oedd yr Adroddwr yn ei gofio yn cerdded cyn belled â Phen Llyn Du. Cafodd ei ganfod yno'n crïo ac yn galw ar ei fam (gw. t. 30). Diddorol yw fod y Bachgen hefyd yn cyfeirio at y tebygrwydd rhyngddo ac Em yn crwydro ar hyd y Lôn Bost yn droednoeth (gw. t. 49). Roedd Em yn arfer mynd â Jini Bach Pen Cae i Goed Ochor Braich, felly mae elfen o ymuniaethu ag Em yn y fan hon, a chofier mai'r atgof am y cam-drin rhywiol a fu ar Jini gan Preis Sgŵl ac Em sy'n mynd trwy feddwl yr Adroddwr cyn iddo wasgu gwddw Jini.

**Y Bachgen**
Gan na wyddom mo'i enw, defnyddiwn briflythyren wrth gyfeirio ato. Dyma'r Adroddwr yn blentyn. Mae'n fachgen hynod sylwgar a sensitif. Enwau anwes a ddefnyddir gan y Fam yn ddieithriad wrth gyfeirio ato: 'ynghyw i', 'Ynghyw bach annwyl i', 'yr hen drychfil bach', a'r 'hen berfadd' pan oedd yn fwytäwr awchus. Pan oedd yn ei geryddu, 'yr hen gena bach' yr oedd yn ei alw. Mae rhyw deimlad o anghyflawnder o'i gwmpas am nad oes ganddo enw.

Mae ganddo deulu yn y Pentra a'r cyffiniau, sef Nain Pen Bryn, Anti Elin chwaer ei fam, Catrin ei gyfnither a Guto ei gefnder, sydd fel brawd mawr iddo pan aiff ar ei wyliau i dyddyn y Bwlch. Ond diflannodd teulu'r Bwlch oddi ar wyneb y ddaear o fewn cyfnod o bum mlynedd y Rhyfel Mawr.

Oherwydd absenoldeb y tad, nid oes ganddo'r un math o hunaniaeth yn y Pentra ag sydd gan lawer o bobl eraill. Pan yw Bleddyn Ifans Garth, sef cefnder Elis Ifas Drws Nesa, yn ei weld yn y gêm bêl-droed y mae'n ei adnabod fel 'hogyn Tŷ Nesa Elis Ifas Rallt' (t. 113). Dyna'i hunaniaeth yng nghanol y dorf. Hynny yw, nid fel mab ei dad (sy'n anhysbys ac yn

absennol), nac fel mab ei Fam y caiff ei adnabod. Pan yw'n cyfarfod ag Wmffra, gŵr Leusa Tŷ Top, am y tro cyntaf, mae Wmffra'n gofyn iddo: 'Hogyn pwy wyt ti?'. Yr ateb y mae'n ei roi yw 'Hogyn Tŷ Isa'. A dyna'r unig ddau gyfeiriad sy'n ei leoli ymhlith y dyrfa liwgar o bobl y Pentra.

Cafodd fagwraeth grefyddol. Dysgai adnodau ac emynau ar ei gof, âi i'r Ysgol Sul, a chanai yng nghôr yr Eglwys. Yn gefndir i'r holl sôn sydd am drais a gofid a thrallodion o'i gwmpas y mae dioddefaint y Crist croeshoeliedig, a'r Bachgen ar un dydd Gwener y Groglith yn dioddef gan gur yn ei ben ac yn mynd i gysgu, ac wrth ddeffro yn uniaethu â'r Crist a gododd o farw'n fyw.

**Y Fam**

Mae'n wraig grefyddol, ddefosiynol. Casglwn ei bod yn wraig weddw. Sonnir am ei modrwy briodas, fel nad plentyn llwyn a pherth yw ei mab. Unwaith yn unig y cyfeiria hi at dad y Bachgen – 'Meddwl am dy dad oeddwn i' (t. 54). Bu'n gweini ym Manceinion ar un adeg (t.135). Ei huchelgais ar gyfer ei mab oedd ei fod yn llwyddo i basio'r arholiad ysgoloriaeth a chael mynediad i'r Ysgol Sir fel ei fod yn gallu 'mynd i weld y byd a chael lot o bres' (t. 10). Ym mhennod XII, wrth i'r Fam a'i mab gerdded i dŷ Anti Elin yn y Bwlch, maent yn gweld 'Cownti Sgŵl', a dywed y Fam, '...i fan yna byddi di'n mynd os gwnei di basio sgolarship.' (t. 135).

Mae'r Fam fel petai'n osgoi trafod y tad gyda'i mab. Pan yw ei chwilfrydedd dealladwy ef yn ei arwain i holi ynghylch ei dad, mae'r Fam yn osgoi ei ateb, fel petai'n ysgubo'r peth o'r neilltu gan roi'r argraff fod y plentyn yn hogyn drwg yn mentro holi. Mae hynny'n sicr yn creu amheuaeth ym meddwl y darllenydd ynghylch hanes y tad a'i dynged.

Mae i salwch y fam le cwbl ganolog. Amgylchynir y bachgen gan lawer o wragedd – a'r wraig bwysicaf un, wrth reswm, yw'r Fam. Cofia'r amser dedwydd yn ei chwmni. Mae'n ofni ei digio. Mae'n awyddus i'w phlesio a bod yn blentyn ufudd. Mae'n sylwi ar yr olwg yn ei llygaid pan ddechreuodd fynd yn ffwndrus. Roeddynt fel 'pinna dur'. Roedd rhyw ddieithrwch anghyfforddus, rhyw bellter a rhyw oerni yn ei golwg a'i hymarweddiad.

**Tada**

Rhan o'r dirgelwch sydd yn y nofel yw absenoldeb y tad. Dau gyfeiriad yn unig a geir ato. Cyfeirir ato y tro cyntaf ar ddiwedd pennod IV, pan yw Wmffra gŵr Leusa Tŷ Top wedi dod adref o'r môr, a'r Fam yn crïo am ei bod yn meddwl am y tad (t. 54). Casglwn drwy hyn ei fod wedi marw; dyna pam y mae'r Fam yn drist. Yr ail dro, y mae'r bachgen yn gofyn cwestiwn chwilfrydig i'w Fam am ei dad, '... oedd Tada'n medru bocsio pan oedd o'n hogyn ifanc?' (t. 89).

**Brenhines y Llyn Du**

Er nad teg galw'r Frenhines yn gymeriad, efallai, gan ei bod hi, fel Brenhines yr Wyddfa, yn fwy o bresenoldeb arallfydol ym meddwl a dychymyg yr Adroddwr na chymeriad go-iawn. Llais mam Huw a glywn yn ateb cwestiwn yr Adroddwr a gaiff Huw ddod allan i chwarae ym mrawddegau agoriadol y nofel. Erbyn y diwedd mae Brenhines y Llyn Du yn llefaru eto,

ac mae'r Adroddwr yn gofyn ai hwn yw'r Llais. Ar ddiwedd y bennod gyntaf gofynna'r Adroddwr: 'Pam na newch chi adael i Huw ddwad allan i chwara, O Frenhines y Llyn Du? (t. 18). Dyna gwestiwn sy'n awgrymu mai bodoli yn nychymyg yr Adroddwr ar noson ei daith a wna, fel petai'n lloerig.

**Moi**

Dyma aelod o'r drindod o ffrindiau mynwesol. Am ei fod fymryn yn hŷn na'r ddau arall ac yn gweithio yn y chwarel gyda'i Yncl Now, mae'n fwy bydol-ddoeth ac yn fwy mentrus. Sylwer fel y mae Huw yn dweud yn edmygus amdano ei fod yn medru smocio dail carn yr ebol (t. 9). Mae'n adrodd beth a glywodd gan oedolion. Mae'n gwybod beth mae oedolion yn ei wneud, neu'n tybio ei fod yn gwybod. Ond fe'i cipir ymaith gan angau, gan adael y ddau arall yn amddifad. Oherwydd ei salwch, nid yw ei farwolaeth mor annisgwyl gan fod sôn amdano yn ei wely ers tro ac yn poeri gwaed. Marw o'r diciâu a wnaeth.

**Huw**

Mae yr un mor ddiniwed â'r Bachgen a'r un oed ag ef. Mae ei dad yn cael gwybod gan y ddau aelod o Gôr Sowth a fu'n aros gyda hwy y byddent yn ennill dwywaith yn fwy o gyflog yn y pwll glo nag yr oedd ef yn ei gael yn y chwarel, unwaith y byddai'r streic drosodd. Gan ei fod eisiau gwell amodau byw, penderfynodd tad Huw y byddai ei deulu yn ymfudo i'r De. Pan dorrir y newydd gan Huw ynghylch y mudo, mae'n newydd cwbl annisgwyl sy'n bwrw'r bachgen oddi ar ei echel. Dyma un digwyddiad arall sy'n cyfrannu at y chwalfa, a chofier mai hwn yw'r digwyddiad sy'n rhagflaenu'r chwalfa fawr, sef mynd â'r Fam i'r Seilam. Roedd Huw wedi addo ysgrifennu at y Bachgen o'r De, ond ni wnaeth. Cyflea'r dyfyniad canlynol pa mor ddirdynnol oedd unigrwydd y Bachgen ar ôl ymadawiad Huw:

> Be wna i rwan? Huw a Moi wedi mynd, a finna ar ben fy hun bach. (t. 158)

**Nain**

Nid yw'n glir iawn yn y nofel mam pwy yw hi, ai mam tad y bachgen ynteu mam ei Fam. Cyfeirir ati fel Nain Pen Bryn, a chawn wybod mai ei henw oedd Betsan Parri. Bu'n byw am dri mis yng nghartref y Bachgen tra oedd ei Fam yn sâl, a hi sy'n gofalu amdano ar ôl i'w Fam fynd i'r Seilam. Roedd yn wraig dduwiol a ddarllenai ei Beibl, ond gallai fod yn un ddigon garw hefyd. Taflodd dorth ar draws y bwrdd at y Bachgen yn ei thymer un tro:

> Dew, un arw oedd Nain. Ond hen beth ddigon ffeind oedd hi hefyd. (t. 97)

Cawn gip arni eto, beth amser ar ôl i'r Bachgen adael nodyn iddi ar y bwrdd cyn gadael y Pentra, pan sonia am fynd heibio iddi ar y stryd heb iddi ei adnabod, fel petai hi wedi colli ei chof.

**Anti Elin**

Mewn tyddyn o'r enw Bwlch yr oedd hi'n byw, ac roedd gwaith pedair awr o gerdded o gartref y Bachgen i gyrraedd yno. Hi oedd chwaer y Fam, ac arferai'r Fam gerdded i weld ei chwaer bob dydd Mercher. Roedd ei gŵr, sef Yncl Harri, wedi ei gladdu ers sawl blwyddyn, oherwydd roedd llun er cof amdano uwchben y lle tân. Roedd ganddi fab a

merch, sef Guto, cefnder hŷn na'r Bachgen, a Catrin, a oedd hefyd yn hŷn nag ef. Erbyn diwedd y Rhyfel yr oedd Anti Elin a Catrin a Guto ill tri wedi marw.

**Guto**

Llanwai hwn y bwlch a adawyd gan y tad absennol. Mae'n ffigur tebyg iawn i frawd mawr ac yn cyflawni swyddogaeth bwysig fel model rôl. Yn ystod y blynyddoedd ffurfiannol y mae ar fechgyn angen rhywun hŷn i'w efelychu a'i edmygu. Ganddo ef y dysgodd y Bachgen sut i nofio am y tro cyntaf. Roedd yn hogyn cryf – sylwodd y Bachgen ar ei gryfder (gw. t. 178). Ymunodd Guto â'r fyddin yn gynnar yn y Rhyfel ac fe'i lladdwyd ar ddiwrnod olaf y Rhyfel.

**Canon**

Collodd ei fab, John Elwyn, yn y Rhyfel a bu farw yntau hefyd yr un wythnos. Bron nad yw ei Fam yn ei eilunaddoli. Roedd yn ddyn clên, ond bu'r Bachgen yn ei wylio un noson drwy ffenest y stydi yn mynd trwy'i bethau am fod pobl yn beio Duw am y Rhyfel.

**Ceri**

Hi oedd ei wir gariad i fod, ond bod bwlch o wyth mlynedd rhyngddynt o ran oedran. Er mor ifanc ydoedd ef, yr oedd ganddo atyniad rhywiol tuag ati, oherwydd sylwodd ar ei 'brest hi yn y golwg i gyd' pan blygodd hi i lawr i siarad ag ef, a gallai ogleuo arogl ei phersawr (gw. t. 24). Roedd llediaith arni ar ôl bod i ffwrdd mewn ysgol yn Lloegr. Yn ei chwmni hudolus hi y gwelodd y môr am y tro cyntaf.

**Jini Bach Pen Cae**

Hi yw'r *femme fatale*, chwedl Dafydd Glyn Jones, sef y ferch ddeniadol sy'n llwyddo i hudo'r Bachgen, ond sydd yn y diwedd yn dod ag ef i drwbl. Doedd ef a hithau ddim yn gariadon. Yn sydyn a dirybudd y daw hi'n rhan o'i fywyd wrth iddynt ddigwydd taro ar ei gilydd un noson. Ei chyfarfod a wnaeth pan oedd ar ei ffordd i Ben Llyn Du i edrych a oedd Robin Gwas Gorlan wedi mynd at y llyn i bysgota. Un cyfarfyddiad a fu rhyngddynt, a hwnnw'n un tyngedfennol o drychinebus i Jini druan ac yntau.

Clywn amdani gyntaf yn y bennod agoriadol pan fo Preis Sgŵl yn ymyrryd â hi yn yr ysgol. Erbyn diwedd y bennod honno dywedir iddi gael ei dwyn i'r Seilam, hi a Catrin Jen Lôn Isa. Yn y drydedd bennod, sy'n rhagflaenu'r bennod gyntaf o ran trefn amser, dywedir bod Jini ar goll y noson yr aeth Em Brawd Now Bach Glo ar goll. Dywedir bod Moi wedi clywed i'r ddau ohonynt fod allan yng nghwmni'i gilydd y noson honno, ac i Jini gael ei chanfod y bore wedyn yn cysgu wrth fôn coeden (gw. tt. 36-7).

Roedd talm o amser wedi mynd heibio erbyn i'r ddau gyfarfod ar y noson dyngedfennol. Erbyn hynny, roedd y Bachgen wedi ymadael â'r ysgol. Y peth diwethaf a glywodd ef amdani oedd ei bod wedi ei chludo i'r Seilam (gw. t. 176). Sylwer fel y mae'n ei galw'n 'chi' pan ofynnodd iddi ble roedd hi'n mynd, sy'n awgrymu fod ganddo ryw barchedig ofn tuag ati ar y dechrau (gw. t. 176). Dyma'r ateb a roddodd hi: 'Am dro i Pentra'. Hawdd iawn dychmygu ar ba berwyl yr oedd hi. Sylwer hefyd fel y mae hi'n ei alw'n 'ti', sy'n awgrymu ei bod nid yn unig yn hŷn nag ef ond hefyd yn fwy hyf ac yn llawer mwy profiadol yn rhywiol.

Nid cael ei threisio gan y Bachgen a wnaeth. Fe welwn mai hi sy'n ei wahodd ef i fynd am dro i lawr at lan yr afon. Hi sy'n siarad yn awgrymog ac yn ymddwyn yn chwareus. Hi yw'r demtwraig sy'n gorwedd ar ei chefn ac yn lledu ei choesau:

> Pan ddaru ni gyrraedd y lle clir ar lan Rafon dyma hi'n taflyd ei hun ar lawr a troi ar wastad ei chefn, a'i dwy fraich ar led, a'r het bach las yn ei llaw dde hi, a'i choesau hi ar led hefyd a'i ffrog hi i fyny at ei phennaglinia hi a'i phais hi'n dangos. (t. 178)

Syniad Jini oedd eu bod nhw'n rhedeg ras ar draws yr afon a thynnu eu dillad a nofio'n noethlymun. Mae'r ddau yn cusanu ac mae Jini'n siarad fel petaent eisoes yn gariadon – 'Mi fasa ni'n cael bod hefo'n gilydd bob nos wedyn.' (t. 179)

Tagu Jini tra oedd hi'n cysgu a wnaeth y Bachgen: 'A rhoid fy nwy law am ei gwddw hi a rhoid cisan iddi hi pan oedd hi'n cysgu, a dechrau'i gwasgu hi.' (t. 180)

**Yncl Wil**
Ffigur bygythiol yw hwn, sef brawd y Fam. Roedd wedi bod yn byw gyda'r Fam am gyfnod pan oedd y Bachgen yn fabi. Arferai ganu'r organ yn yr Eglwys, ac yr oedd yn gweithio yn y chwarel cyn iddo golli ei waith ar ôl dechrau yfed yn drwm. Bu'n drempyn am gyfnod. Sonnir am ddau ymweliad ganddo â'r tŷ. Clywn amdano gyntaf ar y noson y bu Côr Sowth yn canu yn yr awyr agored. Roedd wedi ymweld â'r Fam yn y tŷ tra oedd y Bachgen allan yn gwrando ar y côr. Yna, adroddir hanes yr ymweliad cyntaf a gofia'r Bachgen pan ddaeth at ddrws y tŷ yn feddw ryw noson ac eisiau dod i mewn. Cododd hynny ofn ar y Bachgen a'i Fam, ac mae'r arswyd hwnnw'n para o hyd pan sonnir am yr ail ymweliad.

Dywed y Bachgen yn gyfrinachol wrth Huw am ei ddyfaliad mai Yncl Wil a lofuddiodd Wil Elis Portar yn ei feddwdod: 'Un gwyllt ydy o, wsti Huw' (t. 153). Caiff y Bachgen freuddwyd amdano hefyd yn cael ei grogi yng Nghaernarfon ar ôl torri gwddw Wil Elis Portar.

**Wmffra Tŷ Top**
Llongwr oedd hwn a gŵr Leusa Tŷ Top. Sonnir amdano'n dychwelyd o'r môr ddwywaith yng nghwrs y nofel: y tro cyntaf pan gafodd y Bachgen anrhegion ganddo, a phan wahoddwyd ei Fam ac yntau i Tŷ Top i de, a'r ail dro pan adawodd Leusa a dweud wrthi na fyddai'n dychwelyd ati (gw. t. 102).

'Dyn clên ofnadwy ydy Wmffra,' meddai'r Bachgen amdano pan glywodd amdano'n dychwelyd yr ail dro, a phan gofiai ei garedigrwydd tuag ato y tro cyntaf, a phan oedd amheuaeth mai Wmffra oedd yr 'Ewyllysiwr da' a adawodd y fasged fwyd ar garreg drws Nain Pen Bryn.

Ar ôl i'w Fam fynd i'r Seilam, roedd y Bachgen â'i fryd ar fynd yn llongwr fel Wmffra, pe na bai modd iddo fynd yn was ffarm. Nid oedd gan Gres Ifas Drws Nesa lawer o olwg ar Wmffra. Ei dyfarniad rhybuddiol hi yw: 'Hen dacla ofnadwy ydy'r llongwrs yna.' (t. 65).

Sylwn fod Wmffra yn un o'r bobl na chafodd gynnig y Cymun yn yr Eglwys am nad oedd wedi ei dderbyn yn gyflawn aelod cyn mynd i'r môr (gw. t. 69).

**Elwyn Pen Rhes**
Roedd y pentrefwyr wrth eu bodd pan enillodd Elwyn y D.C.M., sef y *Distinguished Conduct Medal* a roddid i filwyr am ddangos dewrder ar faes y gad. Roedd yn arwr. Yn eironig, clywn iddo gael ei ladd yn y Rhyfel cyn clywed iddo ennill y fedal.

## 4.1 Oriel o gymeriadau brith

Mae rhoi llysenwau i bobl yn gwbl nodweddiadol o fro'r chwareli yn Arfon. Mae llysenwau yn lleoli pobl ac yn rhoi hunaniaeth arbennig iddynt. Yn y nofel, cawn rai sy'n eu cysylltu â (i) eu swydd, (ii) eu cartref (iii) a'u teulu. Er enghraifft:

i) Dafydd Jos Cipar; John Morus Cerrig Bedda; Joni Wilias Barbwr.

ii) Arthur Tan Bryn; Cêt Rhesi Gwynion; Defi Difas Snowdon View a gwraig Defi Difas Snowdon View.

iii) Gryffudd Jos, Brawd Ann Jos Siop; Tad Wil Bach Plisman; Elis Ifas, brawd Defi Difas.

Rhai o'r bobl fwyaf cofiadwy yw'r rheini a chanddynt ryw odrwydd neu wendid. Mae rhai gwendidau sy'n ddigon diniwed, ac mae eraill sy'n fwy sinistr.

**Em Brawd Now Bach Glo**
Mae tipyn o ddiddordeb ynddo ef, y trawswisgwr, yr un sy'n hoff o wisgo dillad merched. Er ei fod yn ferchetaidd ei ffordd a'i lais, fo hefyd sy'n mynd â Jini Bach Pen Cae er mwyn diwallu ei chwantau rhywiol. Yr oedd yn hyn y byddem ni'n ei alw heddiw'n bedoffilydd, am fod ganddo ddiddordeb rhywiol mewn genethod bach:

> Roedd yn hen Em wrth ei fodd yn mynd â genod bach efo fo am dro a codi'u dillad nhw, medda Moi. (t. 37)

Roedd wedi ceisio ei grogi ei hun cyn y noson yr aeth ar goll, a hynny ym Mharc Defaid (gw. t. 33). Ar y noson yr aeth ar goll, mae pawb yn chwilio amdano fel petai'n fwystfil peryglus y mae'n rhaid ei ddal. Caiff ei anfon i'r Seilam, ac mae sôn ei fod yn cael ei guro yn y fan honno. Mae'r drindod, sef 'Huw, Moi a finna' yn cael gwahoddiad gan ei fam i fynd i'w weld yn ei arch.

**Ffranc Bee Hive**
Tipyn o dderyn oedd hwn, mae'n amlwg. Hwn oedd yr un a welwyd gan 'Huw, Moi a finna' yn gorwedd ar ben Gres Elin Siop Sgidia ym Mharc Defaid, a hwn hefyd a welwyd gan y Bachgen yn trio'i lwc wrth roi'i fraich am ganol Ceri ar drip Côr yr Eglwys i Glanabar. Ei dad oedd organydd yr Eglwys.

**Harri Bach Clocsia**
Cymeriad gyda chwerthiniad digri sy’n agor ei falog ac yn dangos ei bidlan i’r bechgyn ar gais Huw.

**Preis Sgŵl**
Prifathro’r ysgol sy’n stido pawb. Mae’n mynd i’r Blw Bel amser chwarae ac yn dychwelyd a’i wyneb yn fflamgoch. Codai ofn ar y plant trwy adrodd am bethau erchyll yr oedd ‘y Jyrmans’ yn eu gwneud i ferched a babanod. Yn eironig ddigon caiff ei fab ef ei hun ei ladd gan yr Almaenwyr yn y Rhyfel.

**Wil Elis Portar**
Cymeriad sy’n cael ffitiau. Fe’i canfyddir gan y Bachgen yn nhoiledau’r ysgol a’i wddf wedi ei hollti â thwca, sef cyllell fawr fel cyllell fara.

**Yncl Now Moi**
Dyma ddyn nad oedd yn ei iawn bwyll. Creadur gwyllt ydoedd a allai ffrwydro ar ddim. Ceir cyfeiriad ato’n rhoi cweir i Moi am ddweud celwydd (gw. t. 111), ac fe’i gwelwyd yn dal cyllell at wddw mam Moi.

## 5. Strwythur a chynllun y nofel

Mewn llythyr a ysgrifennodd at Kate Roberts yn 1954, y flwyddyn y bu farw ei fam, dywedodd Caradog Prichard ei fod yn gweithio ar nofel:

> Y syniad y tu ôl iddi yw myfyrdod brodor wedi dychwelyd i'w fro ac yn ail-fyw ei blentyndod mewn un daith o ychydig oriau ar noson ola leuad yr hen fro.

Pererindod yr Adroddwr sy'n ailymweld â'i orffennol ar ei daith drwy'r pentref chwarelyddol lle y cafodd ei fagu ynddo a gawn ni. Mae'r pentref hwnnw'n cyfateb yn fras i Fethesda, pentref genedigol yr awdur. Wrth ddychwelyd, mae'n dwyn i gof brofiadau ei blentyndod ac yn ail-fyw rhai o'r digwyddiadau mwyaf arwyddocaol, rhai yn felys a digri ac eraill yn chwerw a thrist. Mae'r Adroddwr yn crwydro drwy'r pentref ar noson olau leuad. Ond nid crwydro'n ddiamcan y mae. Pwrpas ei daith yw cyrraedd Pen Llyn Du. Dyna'r gyrchfan derfynol.

Dyna'r llinyn storïol sy'n rhedeg trwy'r nofel ac yn dal y cyfan at ei gilydd. Os mai pen y daith oedd Pen Llyn Du, ac os mai cyrraedd yno er mwyn cyflawni hunanladdiad a wna'r Adroddwr yn y diwedd, yna mae'r atgofion am y digwyddiadau a gaiff eu hadrodd yn fath o esboniad ar ei gyflwr meddyliol. Er mai hanes un daith sydd yma a honno'n digwydd o fewn un noson ola leuad, yr ydym hefyd yn gallu olrhain taith arall, sef hynt y Bachgen o blentyndod i lencyndod ac o lencyndod hyd at drothwy ei ddyndod (gw. **7.2 Cyfnodau trothwyol**).

Nid olrhain yr hanes trwy ddilyn y drefn arferol lle mae'r naill ddigwyddiad yn dilyn y llall yn amseryddol a wna. Camarweiniol yw synio am gynnwys y nofel fel clytwaith anhrefnus, oherwydd wrth graffu'n fanylach arni mae modd canfod y pwythau sy'n dal y gwahanol ddarnau at ei gilydd, rhai yn llac ac eraill yn dynnach. Mae modd gweld ymgais yma i adeiladau'n fwriadus drwy gyfosod rhai o brofiadau'r Bachgen a rhagflaenu rhai digwyddiadau annymunol â rhai pleserus. Er enghraifft:

i) **Cyfosod profiadau**
Ym mhennod IV mae'r Bachgen yn mynd ar goll wrth hel llus ac yn dod i olwg Pen Llyn Du am y tro cyntaf yn ei fywyd. Galwa heibio i fferm Tyddyn Llyn Du lle'r oedd Toss y ci yn bedair ar ddeg oed. Erbyn y bennod olaf, lle mae'n anelu am Ben Llyn Du ar ei ben ei hun, mae'r Bachgen yn bedair ar ddeg oed ac wedi colli cwmni Moi a Huw a'i Fam erbyn hynny, yn union fel yr oedd am ysbaid ar ei ben ei hun bach pan aeth ar goll wrth hel llus y tro cyntaf y gwelodd Ben Llyn Du. Daeth Jini Bach Pen Cae ar ei draws, a hithau erbyn hynny yn forwyn yn Tyddyn Llyn Du lle y gwelwyd Toss yr hen gi, sydd erbyn hynny wedi marw.

ii) **Rhagflaenu digwyddiadau annymunol â rhai pleserus**
Mae'r profiad ysbrydol a dyrchafol a brofodd y Bachgen wrth wrando ar Gôr Sowth yn canu emynau ym mhennod XI yn cael ei ladd yn ddisymwth erbyn diwedd y bennod pan aiff y Bachgen adref a chanfod ei Fam mewn cyflwr bregus ar ôl cael ei styrbio gan ymweliad Yncl Wil.

Darlunia pennod XII un o gyfnodau hapusaf plentyndod y Bachgen, sef yr wythnos a dreuliodd yng nghwmni Guto ei gefnder yn y Bwlch. Yn nhraean olaf y bennod ceir hanes trip côr yr Eglwys i Glanabar pan welodd y Bachgen y môr am y tro cyntaf erioed. Roedd gweld yr olygfa nefolaidd honno'n brofiad ysbrydol ecstatig iddo bron. Wrth gynffon hynny daw pennod XIII lle mae'r awyrgylch gorfoleddus a thangnefeddus yn cael ei ddryllio'n rhacs gan farwolaeth frawychus waedlyd Wil Elis Portar yn gyntaf peth, gan y newyddion annisgwyl am ymadawiad Huw yn ail, ac yn drydydd gan yr olwg ofnadwy ar ei Fam wedi iddi ddychwelyd i'r tŷ ar ôl bod ar goll.

## 6. Adeiladwaith y nofel

Seiliwyd prif fframwaith cynllun y nofel ar daith yr Adroddwr. Cawn ein hatgoffa'n achlysurol am hynny pan gyfeirir at 'heno', sef noson y daith. Gadewch inni olrhain y daith fesul pennod.

**Pennod I**
Wrth ailymweld, mae'r Adroddwr ar ddechrau'r bennod gyntaf yn ei ddychmygu'i hun yn mynd i chwilio am Huw ac yn adrodd hanes y dydd Iau Dyrchafael hwnnw pan oedd ysgol yr Eglwys ar gau am y pnawn. Rhaid mai llais yr Adroddwr a glywn i ddechrau gan ei fod yn sôn am Frenhines y Llyn Du. Mae llais yr Adroddwr am y rhan fwyaf o'r bennod fel petai'n ildio'i le i lais y Bachgen wrth i'r stori gael ei hadrodd. Hanes un prynhawn a geir, ac mae'r hanes hwnnw'n cloi gyda'r olygfa gynnes a chysurlon honno pan yw'r bachgen yn cysgu yn niogelwch a chlydwch gwely ei fam.

Dychwelir wedyn at lais yr Adroddwr ar ddiwedd y bennod gyda'r cyfeiriad cyntaf at y lleuad lawn ar noson y daith:

> Mae na leuad llawn heno. Pam na newch chi adael i Huw ddwad allan i chwara, O Frenhines y Llyn Du? (t. 18)

**Pennod II**
Ar ddechrau'r ail bennod mae'r Adroddwr yn ei ddychmygu ei hun yn mynd i chwilio am Moi. Tybiwn mai llais yr Adroddwr a glywn yn y brawddegau cyntaf: 'Olreit, mi a i am dro i fyny Lôn Bost cyn bellad â Pont Stabla i edrych wela i Moi. A be welais i wrth Blw Bel ond papur wedi cael ei bastio ar y wal i ddeud bod penny reading yn Glanabar nos Iau.' (t. 19). Mae gweld y papur yn arwain at atgof: 'Run fath â'r papur hwnnw oedd yno erstalwm pan ddaeth Canon a Preis Sgŵl i lawr Lôn Bôst...'. Mae rhywfaint o amwysedd yma ai yn y presennol ynteu yn y gorffennol y gwelodd y poster ar y wal, gan fod amser y ferf, 'welais', yn awgrymu mai sôn am ryw adeg cyn noson y daith y mae.

Down at yr Adroddwr eto ar d. 21:

> Mae yna olau yn stydi Ficrej hefyd ... Ond Azariah Jenkins sy'n eistadd yn y gadar o flaen y tân yna rwan, ydw i'n siŵr ... Fo ddaeth yma ar ôl Huws Person, ddaeth yma ar ôl Canon.

Azariah Jenkins yw preswylydd y Ficrej erbyn hyn, ar ôl cyfnod Canon a Huws Person. Cyfleu bod talm o amser wedi mynd heibio y mae. Dyna'r pellter rhwng hanes y gorffennol yr adroddir amdano a'r noson ola leuad hon yn y presennol pan yw'r Adroddwr yn dweud ei hanes. Trwy weddill y bennod mae'n oedi wrth y Ficrej: 'yn y stydi yn y fan acw roedd yr arch...' (t. 28). Daw diwedd yr ail bennod i ben yng nghwmni'r Adroddwr unwaith eto yn y presennol:

> Mae nhw wedi rhoid y bleinds i lawr, neu rydw i'n siŵr y baswn i'n medru gweld Azariah Jenkins yn y stydi o'r fan yma. (t. 29)

Yn yr ail bennod hefyd cawn gip arall ar olau'r lleuad ar noson y daith: 'Noson ola leuad run fath â heno oedd hi...' (t. 24). Mae'r cyfeirio achlysurol hwn at y noson ola leuad yn ddyfais i'n hatgoffa am y daith, sy'n ffurfio prif fframwaith y nofel. Dyfais gynhaliol yw hi. Cydir yn y cyfeiriad at olau'r lleuad wrth ddod â'r ail bennod i'w therfyn pan fo'r Adroddwr yn penderfynu peidio â mynd i gyfeiriad Pont Stabla, ac yn sylweddoli nad oes dim golau yn nhŷ Moi. (t. 29)

Penderfynu cadw at y Lôn Bost y mae'r Adroddwr.

**Pennod III**

Geiriau'r Adroddwr ar noson ei daith a gawn ar ddechrau'r bennod hon. 'Noson ola leuad run fath â heno oedd hi...' (t. 31), meddir cyn adrodd hanes y chwilio am Em Brawd Now Bach Glo.

Erbyn tudalen 37, dychwelwn eto at y presennol, at yr 'heno':

> Yn y fan yma'n union roedd o pan welsom ni o'n dwad rownd y tro, y tu ôl i'r bonc yna ar ochor y lôn. Ac mae'n rhaid mai tua'r adeg yma o'r nos oedd hi hefyd, a hitha'n ola leuad braf run fath â heno. (t. 37)

Mae'r ddyfais gynhaliol yn gymorth i wahaniaethu rhwng 'erstalwm' a heno, sef y presennol, adeg adrodd y stori.

Siarad ag ef ei hun a wna'r Adroddwr (ac mae hynny hefyd yn ffurf ar wallgofrwydd, medd rhai) pan sonia gyntaf am y Llais. Sylwer ar y briflythyren a roir i'r gair gan yr awdur yn y dyfyniad hwn:

> Pa Lais, y ffŵl gwirion? Does yna ddim Llais. Mi roedd yna erstalwm, beth bynnag. Wyt ti ddim yn cofio Mam yn deud hanas Wil Colar Starts yn ei glywad O ar Bont Stabla un noson? (t. 38)

Arweinia hynny at yr hanesyn am Wil Colar Starts.

Mae'n llithro wedyn i lais y Fam yn adrodd stori Wil Colar Starts: ei llais hi a glywn am ennyd estynedig rhwng t. 39 a t. 41, pan oedd y plentyn yn ei afiaith yn gwrando arni.

Unwaith eto, mae'r bennod yn gorffen gyda golygfa ar yr aelwyd, a'r Bachgen yng nghlydwch ei wely.

**Pennod IV**

Defnyddir llais yr Adroddwr fel cyflwyniad i hanes y diwrnod hel llus:

> Mae un peth yn siŵr. Wna i ddim colli'r ffordd ar Lôn Bost heno, run fath â gwnes i'r diwrnod aethom ni i hel llus. (t. 42)

Caiff gweddill y bennod ei neilltuo i adrodd hanes y diwrnod hwnnw, ond weithiau yn y

naratif, gwelwn ymgais i geisio gwahaniaethu rhwng llais y Bachgen a llais yr Adroddwr. Troir o ddefnyddio amser Gorffennol y ferf i ddefnyddio Presennol y ferf er mwyn cyfleu meddyliau'r plentyn yn y gorffennol: 'Dew, ydw i eisio diod' (t. 46), a 'Panad o de fasa'n dda rwan.' (t. 47)

Ond am ysbaid fer down yn ôl at lais yr Adroddwr er mwyn cyfiawnhau gosod y geiriau a'r naratif yn amser Presennol y ferf:

> Fel yna roeddwn i'n siarad efo fi fy hun ar hyd y ffordd... (t. 47).

Pan yw Gres Ifas yn galw heibio i'r tŷ i ddweud am ddychweliad gŵr Leusa Tŷ Top, fe glywir ei llais hi'n adrodd y stori am gyfnod (tt. 52-53).

**Pennod V**
Llais y Bachgen yn ddieithriad a glywir yn y bennod hon. Does dim argoel o gwbl o daith yr Adroddwr.

**Pennod VI**
Caiff y Bachgen rwydd hynt i adrodd yr hanes yn ddiymyrraeth heb i'r darllenydd gael ei atgoffa am daith yr Adroddwr. Dim ond unwaith y cawn gyfeirio at y presennol pan yw'r Adroddwr yn cyfeirio at y graith a oedd ar gefn ei law ar ôl brifo wrth chwarae pinsio yn yr Eglwys: 'Mae'r graith yma o hyd.' (t. 67)

**Pennod VII**
Ar ôl bod mor fud yng nghrynswth y bennod, tua ei diwedd y mae hanes y daith yn brigo i'r wyneb unwaith eto:

> Oedd Lôn Bost yn dywyll bits, run fath â mae hi rwan, a'r lleuad wedi mynd tu nôl i gwmwl. (t. 88)

Ar wahân i'r un cyfeiriad cynnil hwn, mae taith yr Adroddwr wedi bod yn gwbl absennol o'r tair pennod gyfan, sef penodau V-VII.

**Pennod VIII**
O safbwynt y cynllun, fe ddaw hon yn union ar ganol y nofel. Mae saith bennod yn ei rhagflaenu a saith yn ei holynu. Cwestiwn a ofynnir gan yr Adroddwr a geir ar ddechrau'r bennod hon:

> Hwn ydy'r Llais, tybad? Ynta dim ond y gwynt sy'n chwythu trwy Adwy'r Nant? (t. 90)

Yna, llefara Brenhines yr Wyddfa, Priodasferch y Person Hardd. Mae'n anodd gweld perthynas rhwng llith y bennod hon a'r hyn sy'n ei rhagflaenu ac yn ei dilyn. Gan fod pennod VII yn cloi gyda chwestiwn chwilfrydig y Bachgen am ei dad, cwestiwn y mae'r Fam yn osgoi ei ateb, mae rhywun yn dyfalu pa arwyddocâd sydd mai llith Brenhines yr Wyddfa sy'n dilyn? Sylwn mai mynd i gysgu a wnaeth y Bachgen ar ôl derbyn cerydd y

Fam am ofyn cwestiynau gwirion. Fe'n harweinir ni, felly, i ofyn tybed nad ym mreuddwyd y Bachgen yr adroddir llith astrus y Frenhines?

Rhennir hi'n bedair rhan, a hwylus yw rhoi crynodeb ohoni yma:

***Rhan 1***
Ffigur mamol, fel y famdduwies, yw Brenhines yr Wyddfa – yn 'fythol feichiog', sy'n atgoffa rhywun o gerflun 'Genesis' gan Jacob Epstein, y ddelw noeth feiddgar o fam feichiog a fu'n ysbrydoliaeth i Thomas Parry pan gyfansoddodd awdl 'Y Fam', sef awdl anfuddugol Eisteddfod Genedlaethol Aberafan yn 1932.

Deisyfu am gael ei ffrwythloni y mae – sonnir am yr haul ac awelon y gwanwyn, sef tymor ffrwythloni.

Mae'n noson ola leuad, ac mae'n dyheu am gael ei beichiogi 'cyn gwywo cannwyll y lloer'.

***Rhan 2***
Sonnir am y cynnar oleuni, sef y bore glas. Dychmygu y mae ei bod yn esgor ar ei chyntafanedig a rhoi maeth iddo, ac yn ei gyfarwyddo yn y byd a'i weld yn cynyddu mewn bri a llwyddiant, a thyfu'n ddyn.

***Rhan 3***
Daeth yn brynhawn arni, ond nid yw'n gallu esgor ar ei chyntafanedig. Mae'n amhlantadwy, a rhaid iddi oddef holl siom cael ei gwrthod. Fe'i hanwybyddwyd gan y Person Hardd, a theimla iddi gael ei darostwng. Ei hunig ddyhead bellach yw byw fel meudwyes yn unigeddau'r nos.

***Rhan 4***
Mae bellach yn gaeth yn ei nos ac ni all ddianc rhag 'cynddaredd y lloer'. Mae'n dal i obeithio y daw y Person Hardd drachefn ac nad yw'n gwbl wrthodedig. Mae'n dal i obeithio y medr gael ei beichiogi fel y gall esgor ar ei chyntafanedig. Mae'n dal i obeithio y bydd dylanwad y lloer yn cilio ac y daw'n dywyllwch, ond mai'r tywyllwch sy'n rhagflaenu goleuni ydyw.

* * *

Mae persona'r Adroddwr fel petai'n amlycach yn ail hanner y nofel, sef ym mhenodau IX-XV. Ei lais a'i bresenoldeb ef a deimlir amlaf yn adrodd y stori'n wrthrychol yn hytrach na llais mwy cyfarwydd y Bachgen yn hanner cyntaf y nofel, er ein bod yn gallu gweld llithro o'r naill i'r llall yn digwydd yn ddirybudd. Wrth i amser fynd yn ei flaen, mae'r Bachgen yn prifio, ac adlewyrchir hynny yn ansawdd y dull o draethu. Ni chlywn lais y Bachgen mor uniongyrchol ag yn yr hanner cyntaf, sy'n awgrymu ei fod yn nesáu at fyd oedolyn. Mae natur yr hanesion yn llai gwasgaredig hefyd, gan fod penodau IX ymlaen yn canolbwyntio ar un prif ddigwyddiad ym mhob pennod.

**Pennod IX**

Ailgydir yma wrth gynnwys pennod VII, lle ceir hanes y ffeit pan gafodd Now Bach Gorlan gweir gan Joni Sowth. Adroddir rhyw fath o stori onomastig fer i esbonio sut y cafodd Now ei lysenwi'n Now Nain, ac mae honno'n arwain yn daclus at y sôn am Nain Pen Bryn. Down yn ôl at lais yr Adroddwr yn y presennol am ychydig wedyn wrth inni gael ein cyflwyno i'w Nain:

> Ond tasach chi'n nabod Nain Pen Bryn erstalwm mi fasach yn gweiddi Babi Nain arna inna hefyd.
> Un dda oedd Nain. Bob tro fydda i eisio bwyd mi fydda i'n meddwl am Nain. Dew mi faswn i'n medru gneud hefo pryd reit dda rwan hefyd. (t. 94)

Aiff ymlaen wedyn i sôn am achlysur a ddigwyddodd yn ddiweddarach na'r prif gyfnod a drafodir yn hanes y Bachgen, sef yr adeg pan oedd ei Nain wedi mynd yn ffwndrus, pan aeth hi heibio iddo ar hyd y Lôn Bost heb ei adnabod. Mae'n rhaid mai atgof yw hwn am rywbeth a ddigwyddodd ymhell ar ôl yr atgof amdano'n gadael nodyn ar y bwrdd i'w Nain yn y bennod olaf.

Crybwyllir y noson ola leuad ddwywaith gan yr Adroddwr yn y presennol yn y bennod hon:

> Oedd hi'n noson braf ola leuad run fath â heno wrth inni gerddad i fyny i tŷ Nain yn Pen Bryn... (t. 101)

> Dew, oedd hi'n noson braf ar ffordd adra, noson ola leuad run fath â heno, a'r lleuad yn chwerthin yn braf arna ni. (t. 105)

**Pennod X**

Llais yr Adroddwr ar ei daith a glywn gyntaf yn hon:

> Hwn ar y dde yn fan yma, yn mynd yr holl ffordd at ochor Rafon, ydy Cae Robin Dafydd. (t. 106)

Rhyw fath o raglith neu gyflwyniad yw hwn sy'n arwain at yr hanesyn am Ifor Bach Pen Rhes yn syrthio i'r afon, hanes Elwyn ei frawd yn cael ei anrhydeddu, a hanes y syrcas a'r myncwns. Er mwyn llywio'r naratif yn ôl at y prif hanesyn sy'n ganolbwynt y bennod, sef hanes y gêm bêl-droed, mae'n defnyddio dull adroddol llais yr Adroddwr: 'Ond eisio deud oeddwn i am y diwrnod hwnnw ddaru Cybi Wanderers ddwad i chwara am y Cwpan yn erbyn Celts ni yn Cae Robin Dafydd.' (t. 112)

A ninnau wedi blasu cyffro'r gêm drwy ddarllen adroddiad mor fyw yn llais y Bachgen, down yn ôl at lais yr Adroddwr yn y presennol yn y brawddegau sy'n cloi'r bennod:

> Dew, diwrnod ofnadwy oedd hwnnw. Does yna neb yn chwara ffwtbol yn Cae Robin Dafydd rwan. Dim ond gwarthaig yn pori. (t. 119)

**Pennod XI**

Agorir y bennod hon gydag atgof am noson Côr Sowth. Mae llais yr Adroddwr yn cyd-fynd â'r lle a wêl yr Adroddwr ar ei daith, ac yntau wedi cyrraedd o fewn golwg i 'ochor Braich':

> Yn fanacw ar ochor Braich oeddan nhw'n sefyll efo'i gilydd, y côr hwnnw ddaeth yma o Sowth... (t. 120)

Oedir am ychydig i adrodd hanes dadorchuddio'r Gofgolofn, ond fel yn y bennod flaenorol, lle mae angen llywio'r adroddiad yn ôl at ganolbwynt y bennod hon, sef hanes Côr Sowth, mae'r awdur yn dibynnu ar fachyn naratif cyfleus:

> Ond deud oeddwn i am y Côr o Sowth oedd yn canu ar ochor Braich yn fanacw nos Sul wedyn. (t. 123)

Sylwn fel y mae ebychiadau'r Adroddwr yn amlycach yn y fan hon:

> Dew, fydda i eisio crio bob tro fydda i'n canu honno... (t. 122)

> Dew, noson ola braf oedd hi hefyd, nid noson ola leuad fath â heno... (t. 124)

> Dew, mi fydd yna lwmp yn dwad i ngwddw i byth er radag honno bob tro fydda i'n canu'r geiria yna... (tt. 126-7)

Mae'r sylwadau ysbeidiol hyn yn ein hatgoffa ni am y presennol, ac am brif fframwaith cynllun y nofel, sef y daith ar noson loergan:

> A meddwl am ola bach run fath â nacw sy'n dechrau dangos rhwng y cymyla yn Nant Ycha. (t. 122)

**Pennod XII**

Egyr y bennod hon â chwestiwn yr Adroddwr iddo'i hun, sy'n gyflwyniad i hanes yr ymweliad â'r Bwlch:

> Pam ddiawl ddaru mi ddewis dwad ar hyd Lôn Bost ffordd yma heno? Mi faswn i wedi medru mynd am dro dros Mynydd neu dros Ochor Foel. Ydw i'n siŵr basa hi wedi bod yn brafiach mynd ar unrhyw un o'r ddwy ffordd nag ydy hi ar Lôn Bost yma. (t. 134)

Nid oes dim i'n hatgoffa yng ngweddill y bennod hon am y daith.

**Pennod XIII ac XIV**

Mae modd clywed llais y Bachgen fel petai'n cilio o ganol pennod XIII ymlaen, a synhwyrwn ein bod yng nghwmni aeddfetach yr Adroddwr. Oedolion sydd o'i gwmpas bellach ac mae'r naws yn fwy difrifol. Mae pawb o'i gwmpas – ei Nain, Gres ac Elis Ifas – yn siarad mewn llais caredig ac mae'r cyfan yn gwawrio arno:

> Ac yn sydyn dyma fi'n dallt pob dim. (t. 167)

**Pennod XV**

Ceir amwysedd ym mrawddeg gyntaf y bennod hon am fod yr Adroddwr yn mynegi'i ddyhead am gael cwmni merch, a chan ei fod yn sôn am ei Fam yn y bennod flaenorol, mae'n naturiol ein bod yn meddwl mai sôn amdani hi y mae yn y fan hon:

> Dew, mi faswn i'n leicio cael ei chwmpeini hi rwan, hi'n gafael yn fy llaw i a finna â mraich amdani hi, a ninna'n cerddad hefo'n gilydd i fyny i Pen Llyn Du. (t. 175)

Daw'n amlwg yn fuan iawn, fodd bynnag, mai sôn am Jini Bach Pen Cae y mae, sy'n gwbl annisgwyl am ein bod wedi clywed ar ddiwedd y bennod gyntaf iddi hi gael ei dwyn i'r Seilam (gw. t. 18).

> Tasa hi'n chwech o'r gloch nos yn lle chwech o'r gloch bora mi faswn i'n meddwl mai'r un noson oedd hi hefyd. Heblaw na ddaw Jini Bach Pen Cae ddim i nghwarfod i yn fanma run fath â ddaru hi ddwad y noson honno. (t. 175)

Mae'r cyfeiriad uchod gan yr Adroddwr at 'chwech o'r gloch y bora' yn dangos i'w daith unnos yng ngolau'r lleuad bara am rai oriau yn ystod y nos.

Yng nghanol yr adroddiad am y cyfarfyddiad tyngedfennol â Jini Bach Pen Cae, clywn lais pendant yr Adroddwr yn ei sydynrwydd annisgwyl:

> Hi oedd yr unig hogan ges i rioed. (t. 180)

Aiff ymlaen wedyn i sôn am y cyfnod ar ôl iddo gael ei ddal a'i gyhuddo o daflu corff Jini i'r afon, rai dyddiau ar ôl y llofruddiaeth ei hun:

> Ond deud celwydd oeddan nhw pan ddaru nhw ddeud bod fi wedi taflyd Jini Bach Pen Cae i Rafon ar ôl iddyn nhw gael hyd i'w dillad hi ar lan Rafon.
> (t. 180)

Cawn glywed wedyn beth ddigwyddodd ar y noson y lladdodd Jini Bach. A chlywn lais yr Adroddwr yn haeru:

> A faswn i ddim wedi cael fy nal chwaith heblaw i'r dyn hwnnw ddaru roid pas imi ar ôl pasio Glanabar ofyn o lle oeddwn i'n dwad a stopio'i lorri wrth ymyl Lerpwl i siarad hefo plisman. (t. 182)

Mae'r paragraff ar ganol tudalen 182 yn cael ei lefaru gan yr Adroddwr ar ôl cyrraedd pen ei daith, pan fo wedi cyrraedd Pen Llyn Du o'r diwedd ac yn syllu i'w grombil. Mae'n ymddangos mai geiriau olaf yr Adroddwr yw'r cwestiwn a'r ateb canlynol:

> Hwn ydy'r Llais tybad? Ia, hwn ydy o: (t. 182)

A'r Llais, felly, sy'n cael y gair olaf yn y nofel, sef y Llais ym mhen yr Adroddwr, sydd erbyn hyn yn cadarnhau ei fod yntau fel petai wedi colli ei bwyll, yn union fel yr oedd ei Fam pan allai hi glywed lleisiau. Yr hyn y mae geiriau'r Llais, a briodolir i Frenhines y Llyn Du, yn ei wneud yw cyfleu fod yr Adroddwr wedi ei feddiannu. Mae Brenhines y Llyn Du yn siarad iaith ffigurol, ddelweddol sy'n cynnwys adleisiau o ieithwedd rhannau o'r Hen Destament, ynghyd ag adleisiau o'r gorffennol, sef y pedwar dyfyniad a roir mewn print italig:

i) 'Wrth gofio'i riddfannau'n yr ardd' – llinell gyntaf emyn gan Thomas Lewis (1760-1842), sy'n emyn addas i'w ganu adeg y Pasg, ac a oedd yn un o'r emynau a ganwyd gan Gôr Sowth (gw. t. 124).

ii) 'Pasia'r pot piso yna imi' – adlais o eiriau Moi pan oedd ar ei wely angau (gw. t. 76), a llinell o emyn William Williams Pantycelyn (1717-91), 'Pam y caiff bwystfilod rheibus dorri'r egin mân i lawr'.

iii) 'Eitha gwaith â fo; ond y mrawd i oedd o, wsti' – cyfuniad o eiriau'r Bachgen a'r Fam sydd i'w cael yn y freuddwyd a gafodd y Bachgen am grogi Yncl Wil (gw. t. 155).

iv) 'Gan hynny gydag Angylion ac Archangylion a Holl Gwmpeini Nef' – dyma'r dyfyniad olaf sy'n cloi'r nofel. Rhan ydyw o weddi'r Cymun yn y Llyfr Gweddi Gyffredin. Dyfynnir y geiriau hyn gan y gynulleidfa yn yr Eglwys ym mhennod VI ar dudalen 68.

Mae'r dyfyniadau hyn sy'n gymysg â geiriau llais Brenhines y Llyn Du yn cyfleu tryblith meddwl yr Adroddwr erbyn y diwedd. Cylchdroa'r myfyrdodau hyn o gwmpas gofid a dioddefaint ac awgrym sicr o hunanladdiad: 'Â dwylo gor-gelfydd gorffennais luniaidd gwlwm y rhaff; ag anwes foethus profais fin y gyllell ar gnawd.' (t. 183). Gan fod geiriau'r Llais mor fwriadol astrus ac annelwig a rhyfedd, fe all nad oes ystyr iddynt o gwbl. Fe all, yn wir, mai myfyrdodau candryll yr Adroddwr ydynt sy'n hel ei feddyliau ynghyd cyn rhoi terfyn ar ei fywyd trwy gymuno â'r gorffennol a dianc o'r byd hwn.

## 7. Rhyw lun o gronoleg

Nid olrhain yr hanes drwy ddilyn y drefn arferol lle mae'r naill ddigwyddiad yn dilyn y llall yn amseryddol daclus a wneir yn y nofel hon. Ar yr olwg gyntaf, gall y cynllun ein taro fel tipyn o gybolfa ddigyswllt a di-drefn. O graffu'n fanylach, fodd bynnag, mae modd gweld ymgais yma i bwytho rhai penodau at ei gilydd nes bod rhai llinynnau cyswllt yn cael eu clymu. Mae'r dryswch ymddangosiadol, sef y neidio yn ôl ac ymlaen o fewn y nofel, yn gwbl fwriadus ac yn adlewyrchu cyflwr meddwl yr Adroddwr.

Mae rhywbeth enigmatig ynglŷn â'r nofel sy'n ein tynnu i ganol ei labrinth. Po fwyaf yn y byd y darllenwn hi, mwyaf yn y byd y cawn ein hudo ganddi.

Gadewch inni geisio adnabod a nodi'r cyfeiriadau amseryddol sydd yn rhai o'r penodau.

**Pennod I**
Roedd hanes y dydd Iau Dyrchafael hwn wedi digwydd flwyddyn o flaen dydd Sul y Pasg y sonnir amdano ym mhennod VI.

Ceir cyfres o dair pennod sy'n dilyn ei gilydd yn amseryddol yn rhifau IV-VI. Mae dilyniant cronolegol yn y rhain fel petai'r awdur yn fwriadol wedi mynd ati i beidio â chymylu'r ffin amseryddol yn ormodol yn y penodau sy'n arwain at bennod VIII.

**Pennod IV**
Diwrnod hel llus, sef dydd Iau.

**Pennod V**
Bora drannoeth, sef dydd Gwener y Groglith; ac amser te drannoeth, sef dydd Sadwrn.

**Pennod VI**
Bora drannoeth, sef dydd Sul y Pasg. Mae cyfeiriad yng nghorff y bennod hon at ddydd Iau Dyrchafael y llynedd, sy'n cyfeirio'n ôl at y bennod gyntaf.

**Pennod VII**
Dechreuir y bennod hon drwy gydio mewn edefyn a geir yn y bennod flaenorol, sef y cyfeiriad at gefnder Joni Casgan Gwrw, Joni Sowth. Digwydd y bennod hon y 'diwrnod wedyn', sef y dydd Llun ar ôl Sul y Pasg pan welodd y Bachgen a Huw eu ffrind Moi am y tro olaf. Cyn pen yr wythnos, yr oedd Moi wedi marw, a chyfeirir yn ôl at y diwrnod pan welsant ef am y tro olaf fel 'wsnos i dydd Llun dwytha' pan yw Huw a'r Bachgen yn mynd i weld ei fedd (gw. t. 81). Symudir ymlaen yn gronolegol wythnos neu ddwy o fewn y bennod hon, felly. Sonnir am 'nos Fawrth nesaf', sef noson y ffeit focsio. Hanes digwyddiadau'r nos Fawrth honno a gawn yng ngweddill y bennod.

**Pennod VIII**
Dyma'r bennod sy'n drobwynt o safbwynt yr Adroddwr ac o safbwynt y nofel. Nid yw hon yn cyfrif dim o ran cronoleg am ei bod yn perthyn i fyd diamser. Gellir dweud ei bod yn dynodi diwedd plentyndod a dechrau llencyndod.

Yr ergyd greulon gyntaf i'r Bachgen yn bersonol oedd colli Moi. Dyna'r drindod wedi ei bylchu. Digwyddodd hynny cyn y bennod hon.

Gan fod y nofel yn rhedeg ar y blaen iddi ei hun mewn mannau, fe glywn am Frenhines yr Wyddfa yn y fan hon cyn gwybod pryd y gwelodd y Bachgen hi am y tro cyntaf. Ym mhennod XII, Guto ei gefnder sy'n dangos iddo siâp dynes chwyddedig ei bol wrth graffu ar yr Wyddfa, ac yn dweud wrtho am y goel y byddai'n 'Ddiwadd y Byd' pan fyddai'r Frenhines yn codi ac yn dod i lawr. Yn yr entrychion y mae'r ffigur mytholegol, ac mae'n ddigon posibl fod yr Adroddwr yn clywed llais y Frenhines yn llefaru yn ei feddwl am iddi godi a dod i lawr o ben yr Wyddfa, a bod hynny'n rhagargoel bod diwedd y byd gerllaw, neu o leiaf fod diwedd ei fyd ef gerllaw.

**Pennod IX**
O safbwynt cronoleg, digwyddodd hanes gwyrth y fasged yn llawn o ddanteithion yn y bennod hon yng nghyfnod Huws Person, y diwrnod ar ôl lladd Elwyn Pen Rhes. Fis cyn hynny y gwelodd y Bachgen Elwyn yn dod adref o Ffrainc (gw. t. 99).

**Pennod X**
Neidir yn ôl mewn amser yn y bennod hon i'r cyfnod cyn i Elwyn Pen Rhes gael ei ladd, hanesyn a grybwyllir ar dudalen 99. Dyma'r cyfnod o fis cyn iddo ddychwelyd i Ffrainc ar ôl bod adref am y tro olaf. Yn ystod y mis hwnnw y derbyniodd fedal y D.C.M. Clywn am yr hanes hwnnw ar ôl iddo gael ei ladd – dyna enghraifft arall o'r hanes yn rhedeg ar y blaen iddo'i hun, gan ddrysu trefn arferol a chonfensiynol.

Ym mhennod X hefyd y ceir yr hanesyn am Moi a'r myncwns, felly dyna fynd â ni yn ôl mewn amser i'r cyfnod cyn yr amser y sonnir amdano ym mhennod VII, lle mae sôn am farw Moi. Ceir ymgais fwriadus i leoli hanesyn y myncwns o ran ffrâm amseryddol lac ar dudalen 110: 'Blwyddyn cyn i Moi farw oedd hi'. Roedd Yncl Now Moi yn fyw o hyd, felly o ran cronoleg, mae'r rhan hon o'r bennod yn dod o flaen pennod I, lle y dywedir bod Yncl Now wedi ei grogi ei hun yn y tŷ bach. I'r cyfnod cyn marw Moi y perthyn hanes y gêm bêl-droed hefyd, sy'n dilyn hanes y myncwns.

Nid cronicl trefnus a chydlynus sydd yma gan mai tryblith meddwl dyn ar grwydr a gaiff ei adrodd. Ac eto, mae'n amlwg i'r awdur ofalu rhag gwneud cam gwag a chamleoli digwyddiadau ac episodau.

**Pennod XI**
Gosodwyd y bennod hon yn y flwyddyn 1919: 'Blwyddyn ar ôl i Rhyfal ddarfod oedd hi...' (t. 120). Mae hanes Côr Sowth yn digwydd ar nos Sul. Y dydd Mercher cyn hynny yr oedd y Gofgolofn wedi ei dadorchuddio. Mae'r atgof am weld carreg fedd Gryffudd Ifas Braich yn perthyn i gyfnod digwyddiadau pennod I, cyfnod pan oedd Moi yn fyw.

**Pennod XII**
O ran amser, digwyddodd cynnwys y bennod hon cyn dechrau'r Rhyfel. Sonnir yma am y Bachgen yn ddeg oed a Ceri yn ddeunaw, sef yr un cyfnod â phennod VI, t. 67. Mae pennod XII, felly, yn torri ar y dilyniant cronolegol. Mae hon wedi ei lleoli rhwng

dwy bennod dywyll o safbwynt cyflwr y Fam, sy'n cynnwys atgofion cynnar am gyfnod dedwydd a dibryder yn hanes y Bachgen – '...un o'r wsnosa brafia ges i rioed...', chwedl yntau.

**Pennod XIII**
Mae agoriad y bennod hon yn cydio wrth ddiwedd pennod XI, sy'n adrodd hanes Côr Sowth. Mae'r hanes yn digwydd yn ystod y diwrnod ar ôl noson Côr Sowth, sef ar ddydd Llun. Roedd y dydd Llun hwnnw yn un cythryblus yn ei hanes pan adroddir am dri digwyddiad sy'n arwain at y chwalfa fawr ym mhennod XIV, sef:

i) canfod corff Wil Elis Portar;
ii) clywed fod Huw yn gadael;
iii) cyrraedd adref a gweld y Fam yn sâl.

**Pennod XIV**
Aiff hon â ni yn ôl at y dilyniant cronolegol a geir yn mhenodau XI, XIII ac XIV, sef y bore sy'n dilyn y diwrnod ar ôl Côr Sowth, sef bore dydd Mawrth. Hwn yw'r diwrnod pan yw'n hebrwng ei Fam i'r Seilam. Roedd hyn cofier, yn 1919, flwyddyn ar ôl diwedd y Rhyfel.

**Pennod XV**
Digwydd yr hanes yn y bennod hon flwyddyn ar ôl i'w Fam fynd i'r ysbyty meddwl. Sonnir am yr haf wedyn, sef haf 1920, ac yntau erbyn hynny wedi ymadael â'r ysgol. Roedd ei Nain am iddo fynd i weithio yn y chwarel. Mae sôn yma am Toss, ci Tyddyn Llyn Du, sy'n mynd â ni yn ôl mewn amser i'r adeg yr aeth ar goll wrth hel llus. Pedair ar ddeg oed oedd y ci yr adeg honno, ond bellach roedd wedi marw (gw. t. 49).

## 7.1 Dyddiadau ac oedran

Cwmpasa'r nofel gyfnod o ryw bum mlynedd pan oedd y Bachgen rhwng naw a phedair ar ddeg oed.

Yr unig ddyddiad amseryddol pendant a geir yn y nofel gyfan yw hwnnw ar garreg fedd Gryffudd Ifas Braich pan gafodd ddamwain yn y Chwarel a hollti'i ben, sef 24 Medi 1915 (t. 121). Mae 'Huw a Moi a finna' yn cael golwg ar y garreg yn iard y saer maen, John Morus Cerrig Bedda. Roedd yr hanes y cyfeirir ato pan sonnir gyntaf am ddamwain Gryffudd Ifas Braich ym mhennod I (gw. t. 9) wedi digwydd yn amseryddol cyn yr hanes a adroddir ym mhennod XI (t. 121).

Doedd y Bachgen ddim wedi ei eni adeg y Diwygiad, sef 1904-05, fel y mae'i fam yn ei atgoffa wrth sôn am dröedigaeth Wil Colar Starts: 'Doeddat ti ddim wedi cael dy eni.' (t. 39). Ceir cyfeiriadau pendant at oedran y Bachgen pan yw ef yn ei gymharu ei hun ag oedran Ceri. Yn yr ail bennod mae'n gofyn i'w Fam faint yw oed Ceri, a'i hateb hi yw 'rhyw ddeunaw' (gw. t. 23). Roedd ei thad, Canon, yn fyw yr adeg honno. Erbyn cyfnod pennod VI yr oedd ei thad wedi marw ers blwyddyn, ac mae'r Bachgen yn ystyried ei hoedran hi eto. Byddai ef ymhen deng mlynedd yn ugain oed a byddai Ceri yn wyth ar

hugain (gw. t. 67). Felly, yr oedd wyth mlynedd yn iau na hi. Os oedd y Bachgen tua deg oed erbyn canol y Rhyfel yn 1916, gallwn osod dyddiad ei eni yn 1906.

Yng nghorff yr hanes am y cyfarfod i anrhydeddu Elwyn Pen Rhes ar ennill y D.C.M, mae un cyfeiriad sy'n rhoi amcan inni pryd mewn amser yr oedd yr Adroddwr yn adrodd yr hanes. Fel y mae'n digwydd, y mae hynny'n cyd-ddigwydd ag amser ysgrifennu'r nofel ei hun, sef tua 1954, yn ôl dyddiad y llythyr a ysgrifennodd yr awdur at Kate Roberts yn trafod y nofel oedd ar y gweill. Digwydd y cyfeiriad yn y gymhariaeth a ddefnyddir i ddisgrifio mam Elwyn Pen Rhes yn eistedd ar y goitsh ac yn gwisgo'i dillad gorau '... ac yn edrach run fath â'r Frenhinas adag Coroneshion'. A derbyn mai cyfeiriad at goroni Elisabeth II yn 1953 yw hwn, yna roedd yr Adroddwr yn mynd ar ei daith rywbryd ar ôl y flwyddyn honno.

Ceir cyfeiriad arall at y cyfnod ar ôl y digwyddiadau yr adroddir amdanynt yn y nofel, sef digwyddiadau'r bennod olaf pan yw'r Adroddwr yn cofio'i Nain 'erstalwm' yn mynd heibio iddo ar y Lôn Bost heb ei adnabod (t. 94). Cyfeirir at Berllan, sef y tŷ lle cafodd ei Nain ei magu ynddo. Ar ôl iddi ddechrau ffwndro, a hithau dros ei naw deg oed, byddai'n ymweld yn ysbeidiol â'i hen gartref, a byddai'r preswylwyr yn rhoi croeso a phaned o de iddi.

> Does yna neb yn byw yno rwan a mae yna dylla mawr yn y to, a mi ellwch weld yr awyr trwyddyn nhw. (t. 95)

Dyma enghraifft o hanesyn sy'n dangos fod talm o amser wedi mynd heibio, a'i fod yn sôn am ryw adeg rhwng y gorffennol y gosodwyd ei blentyndod ynddo a'r presennol pan yw'n dwyn i gof y plentyndod hwnnw.

O dderbyn fod y nofel yn gorffen disgrifio hanes y Bachgen tua 1920, pan ddaliwyd ef ar ei ffordd i Lerpwl, mae'n amlwg, felly, fod bwlch o ddeng mlynedd ar hugain o leiaf rhwng hynny a'r cyfnod pan yw'r Adroddwr ar ei daith ar y noson ola leuad.

| Blwyddyn | Oedran y Bachgen | Penodau |
|---|---|---|
| 1915 | 9 | I, III, X (hanes y myncwns), XII |
| 1916 | 10 | II, X, IV, V, VI |
| 1917 | 11 | VII |
| 1918 | 12 | IX |
| 1919 | 13 | XI, XIII, XIV |
| 1920 | 14 | XV (hanes diwrnod y cyfarfyddiad â Jini Bach Pen Cae) |

## 7.2 Cyfnodau trothwyol

Ceir awgrymiadau pendant ynghylch adegau ym mhrifiant y prif gymeriad. Bydd anthropolegwyr yn cyfeirio at gyfnodau trothwyol yn hanes bywyd unigolyn pan fydd yn symud o un cyfnod yn ei fywyd i'r llall, neu o'r naill gyflwr i'r llall. Mae modd gweld y cerrig milltir trothwyol hyn yn hanes y Bachgen wrth iddo symud o gyfnod plentyndod i gyfnod llencyndod hyd at drothwy cyfnod ei ddyndod.

Er enghraifft:

i) Conffyrmio, cael bedydd Esgob, a chael ei dderbyn yn gyflawn aelod o'r Eglwys – tua'r un ar ddeg oed, felly. Roedd Cet Rhesi Gwynion a Nel Fair View newydd gael eu derbyn yn gyflawn aelodau pan oedd y Bachgen yn ddeg oed: 'Tro nesa oedd Huw a fi'n cael ein conffyrmio.' (t. 69)

ii) Erbyn cyfnod hanes Côr Sowth ym mhennod XI roedd Huw a'r Bachgen yn ddigon hen i wisgo trywsus llaes am y tro cyntaf, ac erbyn hynny hefyd roedd eu lleisiau'n dechrau torri (gw. t. 122). Erbyn cyfnod pennod XIV, a'r Bachgen bellach tua thair ar ddeg oed, yr oedd ei lais wedi torri oherwydd gallai ganu bas (gw. t. 170).

iii) Ceir un cyfeiriad digon annwyl ond hynod arwyddocaol yn hanes y Bachgen pan fo ar drothwy ei ddyndod, a hwnnw yw'r cyfeiriad at Elis Ifas Drws Nesa yn rhoi ei fraich ar ei ysgwydd ac yn ei gyfarch fel 'hen law' am y tro cyntaf erioed. Cyfarchiad oedd hwnnw ar gyfer oedolyn. I Elis Ifas, nid bachgen ydoedd bellach, ond llencyn a oedd yn gorfod wynebu'r byd fel dyn: 'Gwrando di arnaf fi'r hen law, medda fo' (t. 167).

iv) Er bod sôn am fynd i'r Ysgol Sir (Cownti Sgŵl), nid yw'r Bachgen yn mynd yno yn y diwedd oherwydd i'w fam fynd i'r Seilam. Roedd wedi ymadael â'r ysgol ac roedd ei Nain yn awyddus iddo fynd i weithio i'r Chwarel: 'Mae'n bryd iti ddechra ennill dy damad rwan, wyddost ti ... Ma Elis Ifas yn deud cei di fynd hefo fo bora fory i ddechra' (t. 175). Bellach mae ar drothwy bod yn ddyn. Mae'n bedair ar ddeg oed ac yn gallu herio ei Nain. Mae'n hŷn a'i brofiadau wedi ei galedu fymryn.

v) Daeth yn amser iddo sefyll ar ei draed ei hun a gweithredu ar ei ben ei hun. Doedd y gwmnïaeth a'r cyfeillgarwch rhyngddo a Huw a Moi, pan wynebent anturiaethau bachgendod gyda'i gilydd, bellach ddim yn bod. Doedd ei Fam ddim ar yr aelwyd ychwaith. Cyrhaeddodd yr oedran pan oedd yn ddigon hen i ddechrau gweithio ac yn ddigon hen i gydorwedd â merch. Cyrhaeddodd gyfnod aeddfedrwydd rhywiol ar drothwy ei ddyndod, a thrwy gydorwedd â Jini Bach Pen Cae fe gollodd ei wyryfdod – 'Hi oedd yr unig hogan ges i rioed' (t. 180).

## 8. Darlun o gymdeithas

Cymdeithas bron yn uniaith Gymraeg yw hon lle mae pobl naill ai'n gapelwyr neu'n eglwyswyr. Cynhelir gwasanaeth Saesneg yn yr Eglwys, er mai dim ond hanner dwsin o bobl sy'n mynd yno, a thri o'r rheini'n unig sy'n ddi-Gymraeg, sef Mister Vinsent Bank a'i wraig a'u mab, Cyril.

Mae i grefydd le amlwg ym mywydau pobl, ac yn gymysg â'r sôn am ddysgu adnodau a chanu emynau fe glywir sôn am rai yn ofni barn Duw. Ond nid portread unlliw sydd yma, gan fod llawer o sôn am gamymddygiad pobl hefyd. Mae'n gymdeithas frith gredadwy lle mae pobl yn meddwi, yn ymladd, yn rhegi ei gilydd, yn ffraeo ac yn ymddwyn yn anfoesol.

Y chwarel yw prif ffynhonnell bara menyn y boblogaeth. Mae rhywfaint o gysgod ei pheryglon yn y cefndir, ond fel y lle y bydd bechgyn yn mynd iddo i ddechrau ennill eu tamaid ar ôl ymadael â'r ysgol y sonnir amlaf am y chwarel.

Mae'r Rhyfel Byd Cyntaf yn bwrw ei gysgod dros yr ardal. Ceir cymaint â hanner cant o enwau bechgyn a laddwyd yn y Rhyfel ar y Gofgolofn (gw. t. 120). Gan fod crefydd yn chwarae rhan mor bwysig ym mywydau pobl, fe welwn yr adeg y daeth Côr Sowth i gasglu arian i lowyr y De a oedd ar streic fel yr oedd y bobl a oedd yno'n morio canu fel petai'r emynau yn rhoi cysur iddynt mewn trallod. Trodd y cyfarfod hwnnw yn un ysbrydol i'r Bachgen a Huw. Gyda'r sôn am dröedigaeth Wil Colar Starts adeg y Diwygiad yn chwarae ar feddwl y plentyn hefyd, nid rhyfedd ei fod yn sôn am fynd yn offeiriad.

Mae o leiaf bedwar peth sy'n amlwg ynghylch y gymdeithas a bortreadir, sef tlodi, caredigrwydd cymdogol, digwyddiadau treisgar a rhyw bethau rhyfedd.

### 8.1 Tlodi

Mae'r Fam a'i mab yn byw mewn tlodi. Eu hunig gynhaliaeth yw arian y plwyf a hynny o arian a gaiff y Fam am olchi dillad i deulu Canon. Roedd mor fain arnynt am arian i brynu bwyd fel bod y Fam yn dod â chrystiau a brechdanau sbâr ac esgyrn mewn cwdyn gartref o'r Ficrej, sef sbarion bwyd y Canon a'i deulu (gw. t. 22). Sylwer hefyd fel y mae'r Fam yn gwaredu at ei chwaer yn rhoi esgyrn ac arnynt rywfaint o gig yn fwyd i'r ci. Rhoes y Fam beth oedd i fod yn swper y ci yn ei rhwyd i fynd adref (gw. t. 138).

Ac yntau ar ei brifiant, yr oedd y Bachgen fel petai wastad ar ei gythlwng, wastad eisiau bwyd. Nid oedd ganddynt ddigon o fara un tro am nad oedd arian y plwyf yn cyrraedd tan ddydd Gwener. Gofynnodd y Bachgen i Dduw mewn gweddi am fwyd, ac fel petai gwyrth wedi digwydd, ymddangosodd y fasgedaid yn llawn o ddanteithion yn nhŷ ei Nain a'r nodyn ynddi gan 'Ewyllysiwr Da'.

Synhwyrwn fod amgylchiadau trwch poblogaeth y pentref yn debyg am eu bod yn perthyn i'r dosbarth gweithiol. Roedd y chwarel yn rhoi bywoliaeth i bobl, ond doedd dim arian mawr yn y gymdogaeth, er bod rhai yn well eu byd nag eraill. Synhwyra'r

Bachgen fod gwahaniaeth rhwng ei fyd ef a byd 'byddigions' fel y Canon. Pan ddaeth nai di-Gymraeg y Canon i aros ar ei wyliau yn y Ficrej, er enghraifft, sylwodd y Bachgen ar y gwahaniaeth rhyngddo a hwnnw: '...a sana gwyn a slipars am ei draed o, nid esgidia hoelion mawr run fath â fi.' (t. 23).

## 8.2 Caredigrwydd cymdogol

Gan fod trwch poblogaeth y Pentra yn gyfartal o ran eu stad fydol, ac yn perthyn i beth fyddem yn ei alw'n ddosbarth gweithiol, mae ymdeimlad o frawdgarwch yma wrth i bobl helpu'r gwan. Egwyddorion cymdeithasol Cristnogol sy'n llywio gweithredoedd da pobl gan amlaf. Cymerer, er enghraifft, hanes erlid Catrin Jên o'i thŷ rhent. Ni all Defi Difas Snowdon View sefyll yn segur a gwylio'i thynged heb ymyrryd. Ef sy'n awgrymu bod y dynion yn cludo'i dodrefn i'r tŷ a adwyd yn wag pan fu farw Margiad Wilias (gw. tt. 13-14).

Peth arall y sylwir arno yw'r ysbryd cyfeillgar rhwng cymdogion. Mae'r dyfyniad canlynol yn adrodd cyfrolau am natur y gymdogaeth glòs:

> Helo, dynas ddiarth, medda Mam, am nad oedd Mrs. Ifas ddim wedi bod yn tŷ ni am ddwy noson. Dowch i mewn, Gres Ifas. (t. 51)

Nid cymdogion agos sy'n dangos eu gofal a'u caredigrwydd ychwaith, oherwydd pan aeth y Bachgen ar goll ar Ben Foel Garnedd wrth hel llus, galwodd heibio i'r 'ffarm wrth ochor Llyn Du', fferm y clywir wedyn gan Jini mai Tyddyn Llyn Du oedd ei henw. Cafodd groeso gan ddynes glên yno a chael gwydraid o laeth enwyn a brechdan (gw. tt. 47-9).

Dangosodd Wmffra Tŷ Top garedigrwydd tuag at y Bachgen a'i Fam trwy roi anrhegion iddynt, a hynny'n gwbl ddigymell, fe ymddengys, nes i'r Bachgen ddweud wrtho yn ei syndod: 'Esgob, chi ydi'r dyn clenia welais i erioed...' (t. 64). A phan adewir y fasged fwyd ar garreg drws tŷ Nain gan yr 'Ewyllysiwr Da' tua'r adeg y daeth Wmffra Tŷ Top adref o'r môr drachefn, mae'n naturiol fod y Bachgen a'i Fam yn amau tybed ai Wmffra ydoedd hwnnw. Er bod y Fam a Leusa Tŷ Top wedi ffraeo, llwyddwyd i'w cael i gymodi'n ddigon rhwydd.

Ond y caredigrwydd mwyaf a ddangoswyd tuag at y Bachgen oedd hwnnw gan Gres ac Elis Ifas Drws Nesa pan aeth ei Fam yn sâl. Buont yn gefn iddo ef a'i Nain. Ar y diwrnod didostur yr aethpwyd â'r Fam i'r Seilam, fe gymerodd Elis ddiwrnod i ffwrdd o'i waith er mwyn bod wrth law i helpu (gw. t. 164).

## 8.3 Digwyddiadau treisgar

Yn y bennod agoriadol cawn ein taflu ar ein pennau i ganol cyfres garlamus o ddigwyddiadau sy'n creu argraff o gymdeithas ar chwâl. Mae sôn yn y frawddeg gyntaf un am 'wneud dryga'. Drygioni diniwed plant a olygir, wrth gwrs, fel y bydd bechgyn iach

wrth chwarae – 'dwyn gwsberins o Ardd Ficrej', dwyn afalau, smocio, rhegi, neu chwarae pinsio yn yr Eglwys – ond ni allwn beidio â meddwl am y drygioni o fath arall sy'n digwydd ym myd oedolion yn y nofel. Sonnir am bethau a ystyrid yn gamfihafio anfoesol yng ngolwg y gymdeithas ei hun. Caru y tu allan i briodas, er enghraifft. Cafodd Gres Elin Siop Sgidiau ei cheryddu mewn modd cyhoeddus iawn am iddi feichiogi y tu allan i briodas. Trodd Huws Person ei gefn ati a gwrthod estyn cwpan y Cymun iddi (gw. t. 71).

Mae'r drindod o ffrindiau – Huw a Moi a finna – yn sylwi sut mae oedolion yn ymddwyn, ac yn sylwebu ar yr hyn yr oedd oedolion yn ei wneud, ac ar yr hyn yr oeddynt yn ei glywed am oedolion yn ei wneud. Roedd rhai pethau yr oedd plant yn eu deall, ac roedd pethau eraill yr oeddynt yn tybio eu bod yn eu deall. Pan welsant Ffranc Bee Hive yn gorwedd ar ben Gres Elin Siop Sgidia nes bron â'i mygu, ni ddeallent ar y pryd mai cael cyfathrach rywiol yr oeddynt. Gan Moi y cawn yr esboniad ar yr hyn a welwyd, ac mae'n werth dyfynnu'r ymateb gan Huw i eiriau Moi sy'n dangos y bechgyn yn ceisio ymresymu ynghylch arwyddocâd moesol yr ymddygiad:

> Chwara oeddan nhw, siŵr iawn, medda Moi, run fath â mae pobl yn gneud ar ôl priodi.
> Ond tydi Gres Elin a Ffranc Bee Hive ddim wedi priodi, medda Huw.
> Na, does gennyn nhw ddim hawl i chwara felna gydag iawn, medda Moi, ond mae lot o bobol yn gneud run fath. (t. 15)

Huw hefyd sy'n synhwyro fod rhywbeth amhriodol yn ymddygiad Preis Sgŵl pan fo'n mynd i nôl Jini Bach Pen Cae o'i dosbarth, ar ôl bod yn yfed yn y dafarn amser chwarae, ac yn mynd â hi ar ei phen ei hun i ystafell arall. Roedd ar Huw eisiau mynd i'r chwarel i ddweud wrth dad Jini (gw. t. 7).

Ceir llawer o sôn am drais corfforol yn y nofel. Mae Preis Sgŵl yn ei dymer yn curo plant yr ysgol gyda phastwn. Cafodd Moi gweir gan ei Yncl Now am ddweud celwydd. Mae'r ddau ddyn yn eu hoed a'u hamser, Now Morus Llan a Bob Robaits Ceunant, yn eu dyrnu ei gilydd wrth ymyl Siop Tsips. Effaith gweld y ddau hyn yn ymladd oedd gwneud i'r Bachgen deimlo fel taflyd i fyny (gw. t. 14).

Mae gweld a chlywed am ymddygiad bygythiol pobl yn eu diod yn ddychryn i'r plant. Moi sy'n adrodd wrth y ddau arall fel y clywodd Now Bach Glo yn gweiddi ar ei frawd mawr:

> Gad lonydd iddi hi'r diawl, neu mi sticia i'r gyllath yma ynot ti... (t. 31)

Yr ymateb i weld golygfeydd treisgar a dychrynllyd unwaith yn rhagor yw teimlo ysictod corfforol, fel a ddigwyddodd pan welodd y Bachgen Wil Elis Portar yn gorwedd mewn pwll o waed (gw. t. 150).

Cawn glywed am frawd yn curo'i chwaer. Roedd Yncl Now Moi yn ei wylltineb yn hyrddio'i fwyd ar lawr ac yn curo Mam Moi. Ceir awgrym cynnil o losgach hefyd rhwng Yncl Now a mam Moi, gan fod Moi yn dweud fod y ddau yn arfer chwarae gyda'i gilydd weithiau fel y bydd gŵr a gwraig yn ei wneud (gw. t. 16). Cofier hefyd fod ymweliadau

Yncl Wil feddw a bygythiol yn peri gofid i Fam y Bachgen.

Mae cryn dipyn o sôn am hunanladdiad yn y nofel. Clywn fod Wil Pen Pennog wedi ei foddi ei hun am fod cancr arno, a chofiwn mai cyflawni hunanladdiad a wnaeth Yncl Now Moi. Ofnid mai wedi mynd i geisio'i grogi ei hun yr oedd Em Brawd Now Bach Glo ar y noson yr aeth ar goll, fel y ceisiodd ei wneud un tro o'r blaen. Mae'r bechgyn yn trafod pam y mae gan rai pobl ysfa i'w crogi eu hunain ac yn dod i'r canlyniad hwn: 'am eu bod nhw o'u coua' (gw. t. 34).

### 8.4 Rhyw bethau rhyfedd

'Mae rhywbath rhyfedd yn digwydd o hyd yn y lle yma...', geiriau'r Fam wrth y Nain a'r Bachgen yw'r rhain (gw. t. 102). Fe welwn fod y Bachgen yn ceisio gwneud synnwyr o'r byd dryslyd o'i gwmpas. Go brin fod neb o blith trigolion y Pentra a all esbonio pa rymoedd dieflig sydd ar waith ac yn peri bod pobl yn eu hoed a'u hamser yn colli eu pwyll neu'n mynd 'o'u coua'. Clywn fod rhai pobl yn beio Duw am y Rhyfel, er enghraifft, er mawr ofid i'r Canon.

O ganlyniad i'r trais a welodd ac y clywodd amdano'n digwydd o fewn y gymdeithas, ac yn dilyn y fath chwalfa a brofodd yn ei fywyd ei hun, mae'r Bachgen hefyd yn troi'n dreisgar ac yn lladd Jini, os cywir ein dyfaliad fod yr Adroddwr yn llofrudd. Roedd yn ymddangos fod gwasgu gwddw Jini yn weithred anochel mewn cymdeithas lle roedd trais corfforol a chysgod angau yn bethau hollbresennol. Ar ôl dod yn ddyn yr oedd ganddo hawl i ymddwyn fel yr oedd oedolion yn ymddwyn. Trwy ymddwyn yn dreisgar tuag at Jini Bach Pen Cae mae'n gwneud beth y gwelodd oedolion yn ei wneud. Cofiwn sut y mae'n ymateb i'r newyddion fod Yncl Wil wedi ymweld â'i Fam:

> Y cythral, mi lladda i o os daw o yma eto... (t. 132).

Mae ymwybyddiaeth o drefn gosbi am gamymddwyn. Pan aeth y Fam yn sâl am y tro olaf cyn cael ei chludo i ffwrdd, roedd wedi dechrau mynd i siarad yn rhyfedd, ac un o'r pethau a ddywedodd oedd fod Yncl Wil wedi cael ei grogi yn Rheinws (t. 167), gan atgoffa'r Bachgen o gynnwys ei freuddwyd ef am Yncl Wil (t. 155).

Yn fuan ar ôl i gorff Wil Elis Portar gael ei ganfod, ceir darn o sgwrs rhwng Huw a'r Bachgen yn mhennod XIII lle mae'r ddau yn ceisio dyfalu pam y lladdodd ei hun. Yr unig ganlyniad rhesymegol y gall y Bachgen ddod iddo yw ei fod o'i gof ac mai'r hyn oedd yn gyrru pobl o'u cof oedd eu gwylltineb. Yncl Now Moi sy'n dod i'w feddwl (gw. t. 153). Argraffiadau a grëwyd ar feddyliau plentyn a gawn, ac wrth geisio gwneud synnwyr o hynny mae'r Bachgen yn sydyn iawn yn dechrau deall popeth. Ar y diwrnod pan hebryngwyd y Fam i'r Seilam – wedi iddi daflu carreg trwy ffenest y Rheinws y diwrnod cynt – fe ddisgynnodd y darnau i'w lle, ac fe gyrhaeddwn un o uchafbwyntiau'r nofel o ran datblygiad meddwl y Bachgen sydd ar fin tyfu'n ddyn:

> Ac yn sydyn dyma fi'n dallt pob dim.

Am fynd â hi i ffwrdd ma nhw, yntê? medda fi, a sbio i'r tân. Ac er na ddaru neb ddim deud y geiria, oeddan nhw'n rhedag ar ras trwy mhen i run fath â trên bach Chwaral. Dimbach. Seilam. Mae nhw'n mynd â Mam i Seilam, Seilam, Seilam. Em Brawd Now Bach Glo. Yn ei arch â'i geg yn gorad. Wedi cael ei stido. Em eisio diod. Mi geith hi berffaith chwara teg. Mewn gwendid mae hi. Yncl Wil yn cael ei grogi. Wil Elis Portar. Gwddw'n stillio gwaedu. Seilam, Seilam, Seilam. (t. 167)

## 9. Portread o wallgofrwydd

Un peth na ellir ei osgoi wrth ddarllen y nofel yw'r portread sydd ynddi o salwch meddwl y Fam. Dysgwn yn weddol gynnar ei bod yn arfer crïo'n aml heb unrhyw reswm amlwg, a bod y Bachgen wedi dod i arfer â hynny (gw. t. 20). Dywedir na fu hi byth yr un fath ar ôl i'r Canon farw. Dechreuodd edrych ar ei mab yn rhyfedd a rhyw olwg bell, oeraidd ac orffwyll arni. Gellir yn sicr olrhain camau yn hanes ei salwch meddwl a'i effaith annileadwy ar y Bachgen. Mae cofio'r achlysuron heulog yn ei hanes pan oedd ei Fam yn llawen ar yr aelwyd yn gwneud i'r adegau pan waethygodd ei chyflwr fod yn fwy dwys a thrist. Er enghraifft, pan gafodd ei Fam ac yntau wahoddiad i dŷ Leusa Tŷ Top i de, dyma'r darlun atgofus a oedd ganddo ar ddiwedd pennod VI:

> A Mam yn chwerthin hefyd. A'r drws yn llydan agorad a'r haul yn llifo i mewn i'r tŷ. (t. 78)

Yn nhraean olaf pennod XI, yn dilyn yr adroddiad am noson Côr Sowth, gwelwn y Bachgen yn dychwelyd adref ac yn cael ei ddychryn gan yr olwg oedd ar ei Fam ar ôl i Yncl Wil ymweld â hi. Dysgwn iddo'i gweld felly unwaith o'r blaen, pan fu'n sâl am dri mis a Nain Pen Bryn yn gofalu amdani. Yr adeg honno:

> Oedd ei gwynab hi'n wyn fel calch, run fath a gwynab mewn arch, ond bod ei llgada hi'n agorad, a rheiny'n sgleinio'n ddu run fath â cyraints duon a mynd trwydda fi fel pinna dur pan oedd hi'n sbio arnaf i. (tt. 131-2)

Mae'n ymddangos mai ymweliad Yncl Wil a'i gwthiodd i eithafion ei salwch fel nad oedd gwella arni. Wrth adrodd hanes y Fam ar y diwrnod yr aeth ar goll, mae Elis Ifas Drws Nesa yn dweud wrth y Bachgen ei bod yn siarad am Yncl Wil ac yn drysu: 'Ma hi wedi bod yn siarad yn rhyfadd ers diwrnodia, wsti, medda Elis Ifas.' (t.166)

Arwydd sicr o'i hynfydrwydd yw ei bod naill ai'n siarad â hi ei hun neu â rhywun anweledig. Y tro cyntaf y cofiai'r Adroddwr Yncl Wil yn ymweld â'r tŷ yn feddw roedd y Fam yn siarad â rhywun anweledig. Roedd yn drysu: 'Yr hen gnafon, medda hi, a sbio tu nôl. Ia, chi ddaru ddanfon yr hen gythral yma.' (t. 133). Drachefn, wrth deithio yn y car ar y ffordd i'r Seilam, mae'n ymddwyn yn ynfyd drwy siarad â hi ei hun neu â rhywun dychmygol, gan chwerthin a dweud y drefn bob yn ail (gw. t. 169).

Mewn breuddwyd fe welodd y Bachgen Yncl Wil yn cael ei grogi. Mae'r Fam yn y car ar ei ffordd i'r Seilam yn cyhuddo'r plismon, Tad Wil Bach Plisman, o grogi Yncl Wil. Mae'n ymddangos bod dryswch meddwl y Fam wedi effeithio ar y Bachgen hefyd. Ar sail hyn, mae modd canfod rhywfaint o gyfatebiaeth rhwng meddwl candryll y Fam a breuddwyd ei mab.

Ar ôl iddynt gyrraedd y Seilam, gwelodd y Bachgen ddyn bach tew yn mynd at y cwpwrdd yn yr ystafell aros, a gwelai debygrwydd rhyngddo ac Yncl Wil:

> Dew, debyg i Yncl Wil oedd o, medda fi wrtha fi'n hun. Ond dychmygu petha oeddwn i, wrth gwrs. (t. 171)

## 9.1 Nofel seicolegol

Mae modd dadlau fod yn y nofel ddarlun o gyflwr seicolegol yr Adroddwr. Roedd gweld ei Fam yn ymddwyn yn rhyfedd yn brofiad a oedd yn dychryn y Bachgen, a'r profiad mwyaf ysgytwol a dirdynnol oedd ei hebrwng i'r Seilam a'i gadael yno. Os derbyniwn fod yma bortread o ddirywiad yng nghyflwr meddwl y Fam, a ellir honni bod lle inni ymholi ynghylch cyflwr meddwl yr Adroddwr yntau, o gofio ei fod yn teithio ar noson loergan at Ben Llyn Du ar fwriad cyflawni hunanladdiad? Os yw yntau'n clywed y Llais, fel yr oedd ei Fam yn siarad â hi ei hun ac yn clywed lleisiau, a bod hynny'n arwydd o salwch meddwl, yna mae pennod VIII yn dangos i ba raddau y meddiannwyd ei ddychymyg gan y ddelwedd o'r wraig fythol feichiog ym Mrenhines yr Wyddfa. Yn union ar ddechrau'r nofel, ac yn y bennod olaf, ffigur benywaidd arall sydd ar ei feddwl, sef Brenhines y Llyn Du. Gan fod y ffigurau benywaidd hyn ar ei ddychymyg, mae'n bosibl fod yr Adroddwr yn ymuniaethu â chyflwr meddwl y Fam.

Myfyrdodau ac atgofion llofrudd a gawn wedi'r cyfan, llofrudd a ddaw'n ôl i grwydro hen lwybrau ei febyd ac ailymweld â'i orffennol. Mae'n ailymweld hefyd â'r pethau a greodd ei bersonoliaeth, sef y bobl, y profiadau a'r emosiynau a'i gwnaeth yr hyn ydoedd. Wrth wrando ar ddyn yn ei oed a'i amser yn adrodd ei atgofion drwy lefaru fel plentyn, fe'n cymhellir i'w dehongli fel nofel seicolegol sy'n ceisio darlunio'r cyflwr meddwl sy'n arwain at weithred ddifaol, yn union fel petai'r llofrudd yn ceisio deall beth a'i gyrrodd ac a'i cymhellodd i fygu Jini Bach Pen Cae ar ôl cael cyfathrach rywiol â hi.

Arferai tad gwyddor seicdreiddiad (*psychoanalysis*), Sigmund Freud, a'r seicolegydd Karl Gustav Jung, wrando ar gleifion a ddioddefai gan anhwylderau'r meddwl neu gymhlethdodau personoliaeth yn adrodd eu profiadau er mwyn turio trwy'r ymwybod i'r anymwybod. Yr ymwybod yw'r hyn sydd ar yr wyneb, sef y persona, rhan o'r bersonoliaeth allanol sy'n weladwy i bawb sy'n ein hadnabod neu'n cyfarfod â ni. Mae'r anymwybod yn guddiedig ac ynghwsg – yno y gorwedd cronfa o'n hargraffiadau a'n profiadau a'n hemosiynau mewnol. Gall y rheini fod yn cynnwys argraffiadau a phrofiadau ac emosiynau sy'n gyffredin i'r hil ddynol.

Trwy ddeffro atgofion sydd ynghwsg, mae'r anymwybod yn cael ei gyffroi ac mae'r atgofion yn cael eu bwrw i'r ymwybod ac yn codi i'r wyneb. Gall hynny hefyd ddigwydd mewn breuddwydion, ac wrth drin cleifion ac arnynt anhwylderau meddyliol, yr hyn a wnâi Jung yn aml oedd dehongli eu breuddwydion.

A yw'r math hwn o ddehongliad seicdreiddiol o gyflwr yr Adroddwr yn dal dŵr?

Gellid dychmygu bod yr Adroddwr (sef y Bachgen a dyfodd yn ddyn) yn ail-fyw profiadau ei blentyndod trwy ailymweld â bro ei febyd. Mae teithio ar hyd Lôn Bost yn procio'r cof ac yn cyffroi ei anymwybod nes bod rhai o'i atgofion melys a chwerw, ei ofnau a'i bryderon, ei reddfau a'i gyffroadau, megis yn cael eu hail-fyw ac yn ffurfio rhan o'r esboniad ar ei ymddygiad.

Ateg i'r math hwn o ddehongliad o'r nofel yw'r diddordeb a oedd gan Garadog Prichard

fel llenor a bardd yng nghymhlethdod meddyliol ei fam. Yn wir, bu Caradog ei hun o dan law seiciatrydd yn Llundain, ac mae'n dweud yn ei hunangofiant ei fod yn gweld haen o niwrosis yn rhedeg trwy ei waith. Dywed hefyd mai themâu sylfaenol ei waith llenyddol 'fu'r meddwl claf a'i amryw gysylltiadau'. Yn ei bryddest, 'Penyd', er enghraifft, fe geisiodd fynd i mewn i feddwl ei fam glaf er mwyn ceisio'i ddehongli, ac yn ei bryddest 'Y Gân Ni Chanwyd', mynegodd yr ymdeimlad o euogrwydd oherwydd y fam a gafodd ei gyrru i'r Seilam. Canolbwynt *Un Nos Ola Leuad* yw salwch meddwl y Fam ac effaith hynny ar feddwl y Bachgen a dyfodd yn ddyn.

### 9.2 Cymhlethdod Oidipos

Mae rhai beirniaid wedi gweld ym mherthynas y Bachgen a'i Fam awgrym o'r hyn a elwir yn gymhlethdod Oidipos. Fel rheol, bydd bachgen yn edrych ar ei dad fel ffigur i'w efelychu. Weithiau, fodd bynnag, bydd ambell fachgen yn uniaethu mwy â'i fam ac yn methu ag ymryddhau oddi wrth ei ymlyniad emosiynol a chorfforol cynnar wrthi. Gydag amser fe ddaw'r bachgen hwnnw'n genfigennus o'i dad am ei fod yn hawlio sylw a serchiadau'r fam. Mewn rhai achosion, gall yr ymlyniad annaturiol hwn wrth y fam a'r elyniaeth tuag at y tad arwain at wyrdroadau rhywiol.

Pa arwydd sydd fod gan y Bachgen deimlad annaturiol tuag at ei Fam a allai gael ei ddehongli fel cymhlethdod Oidipos, felly?

Y broblem gyda'r dehongliad hwn yw nad yw'r tad ar yr aelwyd i'r Bachgen allu ei ddynwared. Fe allem ddadlau fod absenoldeb y tad wedi rhoi cyfle i'r Bachgen lenwi'r bwlch yn ei le, ond nid oes dim yn y rhannau hynny o'r nofel sy'n darlunio perthynas y Bachgen a'i Fam sy'n peri inni deimlo fod dim yn annaturiol yn y berthynas honno. Yn sicr, nid oes dim sy'n awgrymu fod ganddo ddiddordeb rhywiol ynddi. Yr hyn sydd wedi rhoi lle i feirniaid ddamcaniaethu ynghylch hyn yw amwysedd symbolaeth ffigur y fenyw – Priodasferch y Person Hardd – sy'n dyheu am gael ei beichiogi ym mhennod VIII, lle rhoir yr argraff fod y Person Hardd yn dod ar ffurf ei 'chyntafanedig coll':

> Ei Briodasferch fydd iddo'n Fam; a'r mab a gymer iddo'i hun ei enedigaeth-fraint. (t. 93)

Fe ellid hefyd gwneud môr a mynydd o awydd y Bachgen i fynd i wely ei Fam i gysgu, ac i afael yn dynn amdani (gw. t. 18). Ond onid greddf naturiol pob plentyn sy'n ofni cysgodion y nos yw eisiau teimlo'n agos at ei fam? Arwydd o'i awydd am gysur a diogelwch oedd hyn nid arwydd o ddim nwyd rhywiol.

Cyfeiriodd mwy nag un beirniad at anallu'r Bachgen i gael perthynas rywiol normal oherwydd i'w brofiad rhywiol cyflawn cyntaf â Jini Bach Pen Cae droi'n ddinistriol. Ond camgymeriad fyddai priodoli hynny'n llwyr i unrhyw gymhlethdod a allai fod yn ei berthynas â'i Fam. Mwy credadwy o lawer yw priodoli'r weithred ddinistriol o wasgu gwddw Jini i ddylanwad yr holl drais a welodd yn digwydd o'i gwmpas ar gyflwr ei feddwl.

## 10. Amwysedd

Nid yw pethau'n ymddangos yn union fel y maent neu fel y dychmygwn ni eu bod. Mae o hyd ryw amheuaeth, rhyw ansicrwydd a diffyg eglurder y tu hwnt i bob amheuaeth ynghylch rhai o ddigwyddiadau'r nofel. Ychwanegu at yr amwysedd a wna'r darnau Beiblaidd, barddonol. Mae'r arddull lafar sy'n cyfleu stori'r Bachgen yn gyferbyniad amlwg ag arddull farddonol, drosiadol y darnau Salmaidd. Ceir amwysedd hefyd yn yr iaith a roir yng ngenau'r plentyn nes bod atgofion yr Adroddwr a llais y Bachgen ar brydiau'n ymdoddi i'w gilydd.

Cyfyd nifer o gwestiynau na cheir ateb diamwys iddynt yn y nofel ei hun. Ai llofrudd yw'r Adroddwr sy'n dychwelyd flynyddoedd ar ôl cael ei ddal? Ymhle y bu yn y cyfamser, ai yn y carchar ynteu yn y Seilam? Pan yw'n sefyll ar lan y Llyn Du yn edrych i mewn i'w grombil ac yn dychmygu mai yno y mae pawb, a yw ar fin plymio i mewn i'r dŵr a'i foddi ei hun?

Beth oedd hanes tad y Bachgen? Gwyddom fod ganddo dad. Mae modrwy briodas ei fam yn awgrymu bod yr aelwyd ar un adeg yn gyflawn. Pwy ydoedd? Beth a ddigwyddodd iddo?

Pam yr oedd ar ei Fam gymaint o ofn Yncl Wil? Ai oherwydd ei fod bob amser yn feddw, ynteu a oedd hanes o drais yn ei herbyn? Dyna ddirgelwch y fasged fwyd yn nhŷ Nain Pen Bryn wedyn. Pwy oedd y cymwynaswr? Ai Wmffra Tŷ Top? Ai oherwydd ei haelioni cynhenid ai ynteu o drugaredd yr estynnodd Wmffra anrhegion i'r Bachgen a phapur chweugain i'w Fam? Beth oedd diddordeb Wmffra yn ei Fam? A fu perthynas rhyngddynt rywdro?

Ai tryblith meddwl y Fam ynteu tryblith meddwl yr Adroddwr a geir yn y darnau Beiblaidd a briodolir i Frenhines yr Wyddfa a Brenhines y Llyn Du? Y Frenhines yw gwrthodedig y Person Hardd. Ai cyfeiriad at y Canon yw'r Person Hardd? Cawn glywed fod gan y Fam feddwl y byd o'r Canon, a bod y newyddion am ei farwolaeth wedi dweud arni. Rhoes y gorau i olchi dillad y Ficrej ar ôl hynny. A oedd gan y Fam deimladau mwy na rhai o barch tuag at y Canon?

A beth am Jini Bach Pen Cae? Does dim esboniad pam y dewisodd y Bachgen ei thagu. Yn dilyn y tair ergyd greulon, sef colli Moi, colli Huw a cholli'i Fam, daeth Jini am ysbaid fer i leddfu rhywfaint ar ei unigrwydd corfforol ac emosiynol. Ai'r awydd i ddial am y cam a gafodd yn ei fywyd a barodd iddo wasgu ei gwddw, ynteu am iddi hi ddwyn ei wyryfdod oddi arno?

Ai Jini Bach, tybed, yw'r wraig feichiog amhlantadwy yn nhruth Brenhines yr Wyddfa? Os cafodd gyfathrach â hi byddai wedi ei beichiogi, ac ymhen amser fe fyddai wedi esgor ar ei blentyn ef. Trwy ei thagu hi fe ofalodd ei bod yn amhlantadwy. Ai math ar weledigaeth broffwydol sydd yn yr wythfed bennod, ble mae'r Adroddwr yn dychmygu ffigur benywaidd mythaidd ar ffurf y Frenhines – sy'n gyfuniad o'r Fam a Jini Bach – wedi ei chaethiwo gan feudwyaeth mewn byd y tu hwnt i amser?

Cwestiynau yw'r rhain y ceir cryn hwyl wrth eu gofyn, ond nad ydym fawr ddim elwach o'u gofyn am nad oes atebion iddynt yn y nofel ei hun. Nid yw amlhau cwestiynau damcaniaethol anatebadwy yn datrys dim ar y dirgelwch nac yn llwyddo i glirio'r haenen o niwl sydd dros rannau o'r nofel. Mae amwysedd, felly, yn rhan bwysig o'i gwead.

## 11. Elfennau mytholegol

### 11.1 Bachgen di-dad

Mae rhywfaint o gysgod y Bachgen di-dad mytholegol ar y prif gymeriad. Fel yn hanes Myrddin yng ngwaith Sieffre o Fynwy, *Brut y Brenhinedd*, lle mae gan y bachgen di-dad hwnnw ryw ddawn ryfedd i broffwydo a rhagweld y dyfodol, mae gan y Bachgen yn y nofel hon ddawn i ragweld y dyfodol mewn breuddwyd.

Gwelodd Dafydd Glyn Jones gyfatebiaeth rhwng y Bachgen a Lleu ym Mhedwaredd Gainc y Mabinogi, gan fod Lleu wedi ei dynghedu gan ei fam, Arianrhod, i fod heb enw a heb wraig. Rhan o'r anturiaeth yn y Bedwaredd Gainc yw ceisio goresgyn y dynged a chanfod enw a gwraig. Yn y nofel, ar wahân i'r enwau anwes arno, fel 'ynghyw i', mae'r Bachgen yn parhau'n ddienw ac mae'r anghyflawnder yn ei gylch yn parhau.

Mae elfen o anghyflawnder yn ei ymgais i gael cariad hefyd. Ceri yw'r un y mae'n ymserchu ynddi, ond mae hi allan o'i gyrraedd. Jini Bach yw'r ferch y mae'n cydorwedd â hi, a hynny heb fod ganddo unrhyw ymdeimlad o gariad nac o serch tuag ati. Ildio i'w chwantau rhywiol a wna gyda hi, a chipir ei wyryfdod oddi arno.

### 11.2 Grym y lleuad

Ffigur benywaidd yw'r lleuad sydd yn aml yn gysylltiedig â duwiesau. Yr enw Lladin am dduwies y lloer yw Luna, ac o'r enw benywaidd Lladin am y lleuad, *luna*, y daw'r gair Saesneg *lunacy*, sef gwallgofrwydd. A chofiwn fod yr ansoddair Cymraeg 'lloerig' yn golygu 'gwallgof'. Arferid credu – ac fe gredir o hyd – bod newidiadau'r lleuad yn ystod y mis yn gallu effeithio ar ymddygiad pobl ac anifeiliaid, a phan welir rhywun weithiau yn ymddwyn yn rhyfedd neu'n wallgof, yr esboniad a glywir yn aml gan bobl yw fod 'y lleuad yn llawn'.

Mae pob math o chwedlau i'w cael ynghylch y lleuad, a llawer o'r rheini'n cynnwys ffigurau benywaidd. Er enghraifft, ceir un chwedl o Ynys Java yn Indonesia lle mae cysylltiad rhwng y lloer a dyfroedd llyn. Daw lloer-dduwies o'r enw Nawang Wulan i'r byd i nofio mewn llyn. Cafodd ei chlogyn ac arno blu alarch ei ladrata gan ddyn fel na allai hedfan yn ei hôl i'r lleuad, ac arhosodd ar y byd a phriodi'r dyn.

### 11.3 Pen Llyn Du

Clywn fod un ofergoel am Ben Llyn Du, sef nad yw'r haul byth yn tywynnu yno (gw. t. 47). Mae enw'r lle yn awgrymu fod rhyw ddrwgargoel ynglŷn ag ef – rhyw dynged anffodus. Mae'n lle gwaharddedig ym meddwl a dychymyg y Bachgen. Pan aiff ar goll wrth hel llus, mae'n arswydo rhag ofn i'w Fam glywed iddo fod yno. Clywn mai Em oedd yr un cyntaf y gwyddai'r Adroddwr amdano'n cyrraedd Pen Llyn Du. Mae'r lle yn bresenoldeb bygythiol. Ac eto, erbyn iddo gyrraedd pen ei daith, mae'r llyn yn lle croesawgar i'r Adroddwr am ei

fod yn dychmygu mai ynddo y mae pawb a oedd yn rhan o'i orffennol. Erbyn hynny mae'r llyn yn ffin rhwng 'erstalwm' a 'heno' y daith, a rhwng y byd hwn a'r byd arall. Yr hyn y mae'n ei ddychmygu y mae'n ei weld wrth edrych arno yw 'Llgada glas yn chwerthin', sy'n cyfeirio'n ôl at lygaid glas Jini Bach ar dudalennau 176 a 178.

Ceir sôn am lyn arall hefyd yn y nofel, sef Llyn Dyn Lleuad (gw. t. 34). Yn wahanol i'r Llyn Du, sy'n cael ei gysylltu â phresenoldeb benywaidd y Frenhines, ffigur gwrywaidd sy'n gysylltiedig â'r llyn hwn. Credid hefyd ei fod yn ddiwaelod, a chrybwyllir ei enw fel lle y gellir cyflawni hunanladdiad ynddo trwy neidio i'w ganol.

## 12. Gair i gloi

Uchafbwynt empathig y nofel, lle mae'r darllenydd yn teimlo ton o gydymdeimlad â'r prif gymeriad, yw'r olygfa honno lle mae'n sefyll ar ei ben ei hun ac yn derbyn y parsel yn cynnwys dillad ei fam a'r ddwy fodrwy. Mae'n anodd meddwl am olygfa fwy arswydus i gyfleu unigrwydd na honno. Ac mae'r disgrifiad o'r crïo sy'n dilyn yn sicr erbyn hyn yn un o'r disgrifiadau enwocaf o feichio wylo a geir yn holl hanes ein llenyddiaeth. Crïo calonrwygol ydyw yn wyneb un o brofiadau didostur bywyd sy'n ein hatgoffa am eiriau T. H. Parry-Williams pan ddywedodd mai 'dagrau sy'n dehongli'r creu i gyd'. Ac efallai mai'r darlun a ddaw i'r meddwl wrth inni amgyffred unigrwydd y Bachgen wyneb yn wyneb â phrofiad mor arteithiol yw darlun Edvard Munch, *Der Schrei der Natur*, a defnyddio'r teitl Almaeneg gwreiddiol a roes yr artist iddo, ond darlun y daethom yn fwy cyfarwydd â'i alw 'Y Sgrech' neu 'Y Waedd'.

Nofel am blentyndod, meddem ar y dechrau, ond efallai y byddai'n decach inni ei hystyried yn nofel am ddiwedd plentyndod a diwedd diniweidrwydd, oherwydd olrhain y camau a arweiniodd at yr adeg pan ddaeth y Bachgen yn ddyn a wneir ynddi. Dengys y nofel hefyd pa mor ddidostur y gall bywyd fod yn hanes unigolyn hydeiml a synhwyrus. Mae bywyd a marwolaeth yn ddau begwn eithaf y profiad dynol, ac yn y nofel hon y mae'r ddau yn canlyn ei gilydd law yn llaw fel dau gariad.

## 13. Cwestiynau i'w trafod yn y dosbarth

i) Pa mor hanfodol yw ein bod yn gwybod ffeithiau am fywyd Caradog Prichard cyn medru darllen a gwerthfawrogi'r nofel?

ii) Pa mor addas yw arddull lafar y nofel i gyfleu meddwl plentyn ac oedolyn?

iii) Pa arwyddocâd sydd fod yr Adroddwr yn mynd ar ei daith ar noson ola leuad?

iv) Pa un yw digwyddiad tristaf y nofel yn eich barn chi?

v) Pa arwyddocâd sydd fod pennod VIII yn dilyn wrth gynffon y cyfeiriad at y Tad?

vi) Paham tybed y mae Pen Llyn Du yn ymddangos fel lle gwaharddedig i'r Bachgen? A oes a wnelo'r lle rywbeth ag absenoldeb Tada tybed?

vii) A ydych yn tybied y gallai naill ai Wmffra Tŷ Top neu'r Canon fod yn dad i'r Bachgen?

viii) A ydych yn credu bod sail i'r ddamcaniaeth a awgrymir gan Menna Baines fod y Bachgen yn ffrwyth perthynas losgachol rhwng y Fam ac Yncl Wil, ac mai hynny sydd wrth wraidd salwch y Fam?

ix) Beth a gymhellodd y Bachgen i wasgu gwddw Jini Bach Pen Cae? Ai oherwydd ei awydd i ddial am y cam a gafodd mewn bywyd?

x) Pa mor debygol yw hi fod yr Adroddwr yn mynd i gyflawni hunanladdiad?

## 14. Crynodeb o brif ddigwyddiadau pob pennod

**Pennod I**

- Preis Sgŵl yn yfed yn y Blw Bel amser chwarae ac yn mynd â Jini Bach Pen Cae trwy'r drws pellaf.
- Mae Huw a'r Bachgen yn mynd am bicnic i Ben Rallt Ddu ar ddydd Iau Dyrchafael ac yn cael eu dilyn gan Cêt Rhesi Gwynion a Nel Fair View.
- Catrin Jên Lôn Isa yn cael ei throi allan o'i thŷ.
- Wil Elis Portar yn cael ffit.
- Yncl Now Moi yn ymosod ar Fam Moi.
- Gweld Em Brawd Now Bach Glo yn ei arch ar ôl marw yn y Seilam.
- Symud dodrefn Catrin Jên i dŷ gwag Margiad Wilias.
- Now Morus Llan a Bob Robaits Ceunant yn eu waldio ei gilydd y tu allan i'r Blw Bel.
- Ffranc Bee Hive yn gorwedd ar ben Gres Elin Siop Sgidia nes bron â'i mygu.
- Y Bachgen yn mynd i gysgu yn y siambar gyda'i Fam.
- Yncl Now Moi wedi ei grogi ei hun yn y tŷ bach.
- Jini Bach Pen Cae a Catrin Jên Lôn Isa wedi eu dwyn i'r Seilam.

**Pennod II**

- Y Fam yn smwddio dillad y Canon.
- Y Bachgen yn mynd i'r Ficrej ar ôl ysgol i helpu ei Fam.
- Atgofion am y Canon wedi gwylltio'n gandryll am fod pobl yn beio Duw am y Rhyfel.
- Atgofion am Ceri a chlywed ei bod tua deunaw oed.
- Atgof am y Canon yn torri'r newydd garw wrth Preis Sgŵl fod ei fab, Bob Bach Sgŵl, wedi ei ladd yn y Rhyfel.
- Atgof am y Canon yn marw a John Elwyn ei fab yn cael ei ladd gan yr Almaenwyr ar yr un diwrnod.

**Pennod III**

- Hanes y chwilio am Em Brawd Now Bach Glo pan aeth ar goll.
- Trafodaeth ar grogi.
- Hanes Wil Colar Starts.

**Pennod IV**

- Hanes diwrnod hel llus ar Foel Garnedd a'r Bachgen yn colli ei ffordd ar y mynydd.
- Y Bachgen yn cyrraedd Pen Llyn Du.
- Y Bachgen yn cael gwydraid o laeth enwyn a brechdan gan wraig garedig y ffarm lle'r oedd Toss y ci yn bedair ar ddeg oed.
- Gres Ifas Drws Nesa'n dweud bod Wmffra Tŷ Top wedi dychwelyd o'r môr.

**Pennod V**

- Y bechgyn yn trafod croeshoelio Crist.
- Hanes y Bachgen yn mynd i gysgu yn y Fynwent ar ddydd Gwener y Groglith.
- Y Bachgen yn mynd am dro i Ben Rallt ac yn cyfarfod ag Wmffra Tŷ Top ac yn cael anrhegion ganddo.

**Pennod VI**

- Hanes gwasanaeth y Cymun yn yr Eglwys pan wrthodwyd y gwin i Gres Elin Siop Sgidia.
- Huw a'r Bachgen yn mynd i edrych am Moi yn sâl yn ei wely.
- Y Fam a'r Bachgen yn mynd i dŷ Leusa Tŷ Top i de.

**Pennod VII**

- Y Bachgen yn clywed y newydd am farw Moi.
- Hanes y ffeit rhwng Joni Sowth a Now Gwas Gorlan y tu ôl i Blw Bel.
- Huw a'r Bachgen yn mynd am dro at Bont Stabla ac yn trafod tröedigaeth Wil Colar Starts pan welodd yr olwyn dân.
- Y Bachgen yn holi ei Fam am ei dad.

**Pennod VIII**

- Truth Brenhines yr Wyddfa. (Gw. **6. Adeiladwaith y nofel**.)

**Pennod IX**

- Atgof am y Fam yn mynd yn sâl a Nain Pen Bryn yn dod i edrych ar eu holau am dri mis.
- Y Bachgen yn mynd i'r Seiat ac yn clywed Huws Person yn gweddïo dros yr hogiau yn y Rhyfel.
- Clywed am farw Elwyn Pen Rhes yn y Rhyfel a'r Bachgen yn ei gofio'n dod adref o ffosydd Ffrainc fis cyn hynny.
- Y Bachgen yn gweddïo am bob math o ddanteithion.
- Y Bachgen a'i Fam yn ymweld â Nain Pen Bryn ac yn clywed am y fasged a adawyd ar garreg y drws gan yr 'Ewyllysiwr da'.

**Pennod X**

- Hanes Ifor Bach yn syrthio i'r afon ac yn cael ei achub gan ei frawd, Elwyn Pen Rhes.
- Hanes diwrnod anrhydeddu Elwyn Pen Rhes am ennill y D.C.M.
- Hanes y syrcas ar gae Robin Dafydd.
- Hanes Moi yn rhoi pils i'r myncwns.
- Hanes y gêm bêl-droed ar Gae Robin Dafydd.

**Pennod XI**

- Hanes dadorchuddio'r gofgolofn a hanes gweld carreg fedd Gryffudd Ifas Braich.
- Hanes noson Côr Sowth.
- Hanes y Bachgen yn dychwelyd adref ac yn gweld ei Fam mewn tipyn o stâd ar ôl ymweliad Yncl Wil.

**Pennod XII**

- Hanes y Bachgen a'r Fam yn cerdded i'r Bwlch, a hanes yr wythnos a dreuliodd y Bachgen yno.
- Dysgu nofio yn Llyn Corddi a syrthio a thorri ei fraich.
- Hanes gweld Brenhines yr Wyddfa a Sir Fôn a Biwmares.
- Hanes gweld y môr am y tro cyntaf yng nghwmni Ceri merch y Canon.

**Pennod XIII**

- Y Bachgen yn canfod corff Wil Elis Portar yn nhai bach yr ysgol.
- Hanes y Fam ar goll.
- Hanes y Bachgen yn breuddwydio am grogi Yncl Wil yng Nghaernarfon.
- Huw yn dweud wrth y Bachgen ei fod yn gadael y Pentra am byth.
- Y Bachgen a'i Nain yn canfod y Fam mewn cyflwr enbyd yn y tŷ.

**Pennod XIV**

- Hanes diwrnod mynd â'r Fam i'r Seilam.
- Y Bachgen yn teimlo bod y freuddwyd a gafodd yn dod yn wir.
- Hanes y daith ym Moto Siop Gornal.
- Y Bachgen yn gweld y nyrs a edrychai'n debyg i Jini Bach Pen Cae a'r ddau ddyn bach digri.
- Hanes cyflwyno'r parsel i'r Bachgen a'r ddwy fodrwy ac yntau'n beichio crïo.

**Pennod XV**

- Hanes y Bachgen yn herio'i Nain ac yn mynd allan o'r tŷ gan glepian y drws ac yn mynd i gyfeiriad Pen Llyn Du i chwilio am Robin Gwas Gorlan.
- Hanes y cyfarfyddiad â Jini Bach Pen Cae.
- Hanes y Bachgen yn gadael y Pentra cyn cael ei ddal ar ei ffordd i Lerpwl.
- Yr Adroddwr yn cyrraedd pen ei daith ar lan Pen Llyn Du.
- Truth Brenhines y Llyn Du (gw. **6. Adeiladwaith y nofel**.)

## 15. Llyfryddiaeth

Menna Baines, *Yng Ngolau'r Lleuad: Ffaith a Dychymyg yng Ngwaith Caradog Prichard* (Gwasg Gomer, Llandysul, 2005).

J. Elwyn Hughes, *Byd a Bywyd Caradog Prichard 1904-1980: Bywgraffiad Darluniadol* (Cyhoeddiadau Barddas, 2005).

J. Elwyn Hughes, *Byd Go Iawn* Un Nos Ola Leuad (Cyhoeddiadau Barddas, 2008).

Dafydd Glyn Jones, 'Rhai Storïau am Blentyndod', yn J. E. Caerwyn Williams gol., *Ysgrifau Beirniadol IX* (Gwasg Gee, Dinbych, 1976), tt. 255-73.

Mihangel Morgan, *Caradog Prichard* (Cyfres Llên y Llenor, Gwasg Pantycelyn, Caernarfon, 2000).

Caradog Prichard, *Afal Drwg Adda [:] Hunangofiant Methiant* (Gwasg Gee, Dinbych, 1973).

John Rowlands, 'Y Fam a'r Mab – Rhagarweiniad i 'Un Nos Ola Leuad', yn J. E. Caerwyn Williams gol., *Ysgrifau Beirniadol XIX* (Gwasg Gee, Dinbych, 1993).

John Rowlands, *Nodiadau ar* Un Nos Ola Leuad *(Caradog Prichard)*, Cynorthwyon Cymraeg Safon Uwch Aberystwyth, 3 (Aberystwyth, 1997).

Ioan Williams, 'Campwaith o Blith Nofelau: *Un Nos Ola Leuad*', yn *Y Nofel* (Gwasg Gomer, Llandysul, 1984).